



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cymraeg yn y carchar

Arolwg o hawliau a phrofiadau
carcharorion sy'n siarad Cymraeg

Cyhoeddwyd yn unol ag adran 4
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
Rhagfyr 2018

Siambrau'r Farchnad

5–7 Heol Eglwys Fair

Caerdydd

CF10 1AT

0345 6033 221

post@comisiynyddygydraeg.cymru

[@ComyGymraeg](#)

comisiynyddygydraeg.cymru

Rhagair	4
Prif ganfyddiadau ac argymhellion	6
1. Pam y cynhaliwyd yr arolwg hwn?	17
Rôl y Comisiynydd mewn perthynas â charchardai	17
Amcanion yr arolwg	19
Pam mae angen ystyried y Gymraeg yn y carchar?	22
2. Polisi carchardai yng Nghymru	25
Cyd-destun	25
Datblygu carchardai yng Nghymru	27
Y Gymraeg	30
Datganoli	31
3. Lleoli	33
Pwysigrwydd lleoliad carcharorion	33
Lleoli carcharorion – y broses	37
Lleoli carcharorion – canlyniadau	41
Lleoli menywod	45
4. Adnabod anghenion iaith carcharorion	48
Pwysigrwydd adnabod anghenion iaith	48
Y data a gesglir	50
Sut caiff y data ei gasglu a'i ddefnyddio	51
Dewis iaith carcharorion a gyfwelwyd	55
5. Profiadau siaradwyr Cymraeg yn y carchar	56
Rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg	56
Gwasanaethau carchar	60
Gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau allanol	68
6. Cynllunio'r gweithlu	71
Pwysigrwydd cynllunio'r gweithlu	71
Casglu a defnyddio data ynghylch sgiliau staff	73
Recriwtio	75
Hyfforddiant	79
7. Gwranddo ar lais carcharorion	82
Y gallu i gwyno am faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg	82
Ymgysylltu â charcharorion	89
Monitro ac atebolrwydd	91

Rhagair

Mae'r system carchardai'n faes cymhleth sy'n cael effaith sylweddol ar lesiant nifer uchel o bobl. Mae dyletswyddau cyfreithiol amrywiol yn berthnasol iddo – gan gynnwys dyletswyddau iaith – ac, am resymau ymarferol, mae'n gallu bod yn anodd cael gwybodaeth bendant ynghylch profiadau a gwasanaethau.

Mae angen diwallu anghenion iaith carcharorion sy'n siarad Cymraeg er mwyn rhoi'r cyfle gorau iddynt gael eu hadsefydlu'n effeithiol. Mae galluogi carcharorion i siarad eu hiaith eu hunain yn dangos parch at eu hunaniaeth, ac yn eu galluogi i'w mynegi eu hunain yn well.

Rwy'n falch felly fod yr adroddiad hwn yn casglu ynghyd gyfoeth o wybodaeth ynghylch y modd y caiff siaradwyr Cymraeg eu trin yn y system carchardai, gan gynnwys ymchwil newydd uniongyrchol ynghylch eu profiadau.

Dymunaf ddiolch i'r gwasanaeth carchardai am ymwneud yn gadarnhaol â'r arolwg ar hyd y ffordd. Bu swyddogion y gwasanaeth carchardai'n onest a thryloyw, gan ddangos ymroddiad amlwg i wella profiadau siaradwyr Cymraeg sydd dan glo.

Fodd bynnag, nid yw bwriadau da ac arweiniad o'r canol bob amser yn creu newid gwirioneddol i brosesau bob dydd a phrofiadau go iawn. Mae llawer eto i'w wneud o ran adnabod anghenion iaith carcharorion drwy gasglu data'n effeithiol, a chynllunio'r gweithlu fel bod gwasanaethau Cymraeg ar gael yn gyson ac yn ddibynadwy.

Cefais fy nhristáu o glywed straeon am staff carchardai'n ymyrryd â rhyddid carcharorion i siarad Cymraeg â'i gilydd ac â'u teuluoedd. Mae swyddogion HMPPS wedi fy sicrhau nad yw atal siarad Cymraeg yn

dderbyniol ac eithrio mewn sefyllfaoedd eithriadol, a rhaid sicrhau bod staff carchardai'n deall hyn.

Mae angen gwaith pellach i sicrhau bod carcharorion sy'n siarad Cymraeg yn cael eu lleoli mewn carchardai yng Nghymru os yw hynny'n ymarferol – mae ganddynt fwy o hawliau i siarad Cymraeg mewn carchardai yng Nghymru, ac mae bod yn nes at adref yn creu gwell canlyniadau i garcharorion. Mae agor CEM Berwyn wedi gwella'r sefyllfa ar gyfer carcharorion o ogledd Cymru.

Roedd sefyllfa menywod o ddiddordeb penodol i mi, gan nad oes carchar menywod yng Nghymru. Mae gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder strategaeth benodol ar gyfer troseddwy'r benywaidd, sy'n golygu na fydd carchardai newydd yn cael eu creu. Dylai anghenion iaith fod yn ystyriaeth wrth ddatblygu'r gyfundrefn newydd.

Rwyf am weld trefniadau'n cael eu datblygu er mwyn sicrhau bod llais carcharorion yn cael ei glywed – drwy gwynion mewnol a chwynion wrthyf i, a drwy ymgysylltu â charcharorion a monitro gwasanaethau.

Dechrau'r daith yw'r arolwg hwn. Ar sail fy ymwneud â hwy hyd yn hyn, rwy'n hyderus y bydd swyddogion HMPPS yn defnyddio'r canfyddiadau a'r argymhellion er mwyn gweithredu'n gadarnhaol i wella profiadau siaradwyr Cymraeg. Edrychaf ymlaen at eu cefnogi i wneud hynny.

Meri Huws

Comisiynydd y Gymraeg



Prif ganfyddiadau ac argymhellion

1. Pam y cynhaliwyd yr arolwg hwn?

Rôl y Comisiynydd mewn perthynas â charchardai

Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am sicrhau bod sefydliadau – gan gynnwys Gwasanaeth Carchardai a Phrofiant EM (HMPPS) – yn cydymffurfio â'u dyletswyddau cyfreithiol o ran y Gymraeg, ac am sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae carchardai o ddiddordeb arbennig am eu bod yn ymwneud â llesiant pobl fregus mewn sefyllfa anodd, a chydweithio rhwng sefydliadau sy'n gweithio mewn gwahanol gyfundrefnau gwleidyddol.

Amcanion yr arolwg

Roedd cwestiynau'r arolwg yn canolbwyntio ar hawliau carcharorion; effeithiolrwydd sefydliadau wrth weithredu'r hawliau hynny; profiadau carcharorion a'u teuluoedd; a'r gallu i gwyno am faterion yn ymwneud â'r Gymraeg.

Mae'r adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion at sylw HMPPS, ond bydd y canfyddiadau hefyd o ddiddordeb i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder; rheolwyr carchardai unigol yng Nghymru a Lloegr; sefydliadau allanol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau mewn carchardai; Aelodau Seneddol ac Aelodau Cynulliad; sefydliadau a mudiadau sy'n dylanwadu ar bolisi ym maes carchardai; ac aelodau'r cyhoedd.

Cynhaliwyd yr arolwg drwy gynnal arolwg o ddogfennaeth a deddfwriaeth berthnasol; cynnal cyfweiliadau â charcharorion a chyn-garcharorion; ysgrifennu at sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau mewn carchardai (awdurdodau lleol a byrddau iechyd) a sefydliadau eraill sydd â diddordeb yn y maes; ac ymweld â charchardai a chynnal cyfarfodydd â swyddogion carchardai a HMPPS.

Pam mae angen ystyried y Gymraeg yn y carchar?

Mae'r Comisiynydd o'r farn fod angen diwallu anghenion iaith carcharorion sy'n siarad Cymraeg er mwyn rhoi'r cyfle gorau iddynt gael eu hadsefydlu'n effeithiol. Mae galluogi carcharorion i'w mynegi eu hunain yn eu hiaith eu hunain yn arbennig o bwysig gan ystyried bod gan garcharorion fwy o anghenion na'r boblogaeth yn gyffredinol o ran anawsterau ac anableddau dysgu, ac o ran iechyd meddwl a chorfforol.

2. Polisi carchardai yng Nghymru

Cyd-destun

Ochr yn ochr â thrafodaethau cyffredinol am bolisi carchardai yng Nghymru a Lloegr, sy'n ymwneud â materion fel diogelwch, hil ac addysg, mae trafodaeth benodol i Gymru wedi bod yn digwydd, wedi ei harwain gan Bwyllgor Materion Cymreig Senedd y DU. Themâu amlwg yn y drafodaeth honno yw datblygu carchardai yng Nghymru, y Gymraeg, a datganoli.

Datblygu carchardai yng Nghymru

Mae CEM Berwyn bellach wedi agor yn dilyn blynyddoedd o drafod a chynllunio; roedd cyfle i ddarparu ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn un o'r dadleuon dros gael carchar yng ngogledd Cymru. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd yn bwriadu agor carchar newydd yn ne Cymru, ond ni fydd Llywodraeth Cymru'n hwyluso'r bwriad hwnnw heb drafodaethau pellach ynghylch gwasanaethau a chymorth i adsefydlu.

Y Gymraeg

Mae'r Pwyllgor Materion Cymreig wedi nodi ar ddau achlysur, y cyntaf dros 10 mlynedd yn ôl, fod data ynghylch siaradwyr Cymraeg yn y carchar yn annerbyniol o brin, a bod angen gwella gwasanaethau Cymraeg mewn carchardai.

Datganoli

Mae'r ffaith fod Llywodraeth y DU'n gyfrifol am y system carchardai, ond bod nifer o faterion sy'n effeithio ar lesiant carcharorion wedi eu datganoli i Gymru, yn arwain at sefyllfa gymhleth a rhai anawsterau.

3. Lleoli

Pwysigrwydd lleoli

Mae'n fanteisiol lleoli carcharorion sy'n siarad Cymraeg mewn carchardai yng Nghymru, oherwydd:

- o mae'n debygol o leihau pellter carcharorion o'u cartref, gan alluogi gwell cyswllt â theuluoedd a chymunedau, a chynyddu'r tebygolrwydd o adsefydlu'n llwyddiannus;
- o mae mwy o hawliau cyfreithiol i ddefnyddio'r Gymraeg mewn carchardai yng Nghymru nag yn Lloegr, yn sgil y rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg, ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg HMPPS, a chyfrifoldebau awdurdodau lleol yng Nghymru o ran gofal a chymorth.

Lleoli carcharorion – y broses

Wrth benderfynu ym mha garchar i leoli pob carcharor, ystyrir rhywedd, oedran, math o drosedd, categori diogelwch, capasiti, hyd dedfryd, a phellter o'u cartref. Ceir ymrwymiad i leoli carcharorion o Gymru yng Nghymru, ond ni chesglir data penodol am hyn. Does dim lleoedd carchar yng Nghymru ar gyfer menywod, pobl ifanc rhwng 18 a 20 oed, na carcharorion risg uchel. Ni chaiff y Gymraeg ei hystyried yn benodol wrth benderfynu yn lle i leoli carcharorion.

Argymhelliad 1

Dylai HMPPS ystyried addasu ei drefniadau ar gyfer lleoli carcharorion er mwyn sicrhau, pan fo hynny'n ymarferol, fod carcharorion sydd angen gwasanaethau Cymraeg yn cael eu lleoli yn y carchardai sydd fwyaf abl i ddarparu'r gwasanaethau hynny.

Lleoli carcharorion – canlyniadau

Mae'r Comisiynydd wedi gwneud dadansoddiad pellach o ddata Canolfan Llywodraethiant Cymru ynghylch lleoliad carcharorion o Gymru. Siroedd gogledd Cymru yw'r 6 sir sydd â'r canrannau isaf o'u carcharorion yn y carchar yng Nghymru. Mae 4 o'r 6 sir hyn ymysg y siroedd hynny sydd â mwy na 20% o'r trigolion yn siarad Cymraeg. Mae'r canrannau isel ar gyfer siroedd y gogledd yn rhannol oherwydd mai CEM Altcourse yw'r 'carchar lleol' ar gyfer llysoedd gogledd Cymru. Mae bwriad i symud y swyddogaeth hon i CEM Berwyn.

Lleoli menywod

Nid oes carchar i fenywod yng Nghymru. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi strategaeth ynghylch troseddwy'r benywaidd, sy'n golygu na fydd rhagor o garchardai'n cael eu hadeiladu ar gyfer menywod. Y bwriad yw buddsoddi mewn darpariaeth gymunedol a chanolfannau menywod preswyl, a cheisio lleihau nifer y menywod ar ddedfrydau byr.

Argymhelliad 2

Dylai HMPPS sicrhau bod anghenion menywod sy'n siarad Cymraeg yn cael eu hystyried yn llawn fel rhan o unrhyw gynlluniau i ddatblygu'r ddarpariaeth i droseddwy'r benywaidd dan strategaeth y Llywodraeth.

4. Adnabod anghenion iaith carcharorion

Pwysigrwydd adnabod anghenion iaith

Mae data ynghylch anghenion iaith carcharorion yn hanfodol er mwyn cynllunio gwasanaethau – er enghraifft penderfynu lle i leoli carcharorion, datblygu darpariaeth Gymraeg yn y carchardai cywir, dyrannu staff, a chynnig gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol.

Y data a gesglir

Nid yw'r data y mae HMPPS wedi ymrwymo i'w gasglu cystal ag y gallai fod – gallai wneud mwy i ganfod dewis iaith carcharorion mewn gwahanol amgylchiadau, a dylai gasglu data ynghylch y gallu i siarad Cymraeg yn ogystal â dewis iaith.

Argymhelliad 3

Dylai HMPPS addasu'r data y mae'n ymrwymo i'w gasglu ynghylch anghenion iaith carcharorion, er mwyn adnabod dewis iaith mewn gwahanol sefyllfaoedd, ac er mwyn adnabod gallu i siarad Cymraeg yn ogystal â dewis iaith.

Sut caiff y data ei gasglu a'i ddefnyddio

Nid yw'r trefniadau casglu data ynghylch anghenion iaith yn ddigon cadarn. Ar sail y dystiolaeth a welodd, ni all y Comisiynydd fod yn sicr fod y data'n cael ei gasglu'n gyson ac yn gywir. Awgryma'r dystiolaeth hefyd fod anawsterau o ran y data sydd ar gael i garchardai er mwyn iddynt gynllunio'u gwasanaethau.

Argymhelliad 4

Dylai HMPPS gryfhau ei drefniadau er mwyn sicrhau bod data ynghylch y Gymraeg yn cael ei gasglu ar gyfer pob carcharor yn ddi-ffael, a bod modd i bob carchar gael mynediad at ddata cywir er mwyn cynllunio'i wasanaethau.

5. Profiadau siaradwyr Cymraeg yn y carchar

Rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg

Mae'r Comisiynydd wedi clywed am nifer o enghreifftiau o staff carchardai'n dweud wrth garcharorion am beidio â defnyddio'r Gymraeg, naill ai â'i gilydd neu â phobl o'r tu allan i'r carchar, mewn cyd-destunau lle na ellid cyfiawnhau'r ymyrraeth. Ar y llaw arall, roedd agwedd y rheolwyr o fewn y system a gyfwelwyd yn gyson oddefgar neu gadarnhaol, a sefydlwyd grŵp anffurfiol yn CEM Berwyn sy'n rhoi cyfleoedd i garcharorion ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Awgryma hyn fod yr ymyrraeth yn ganlyniad agweddau negyddol neu ddiffyg gwybodaeth ar ran swyddogion carchar.

Argymhelliad 5

Dylai HMPPS gymryd camau i'w gwneud yn gwbl glir fod modd i garcharorion gyfathrebu yn Gymraeg â'i gilydd ac â chysylltiadau allanol, gan nodi'n fanwl dan ba amgylchiadau na chaiff hynny ei ganiatáu.

Argymhelliad 6

Dylai HMPPS ddatblygu cyfleoedd pellach i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol yn CEM Berwyn ac mewn carchardai eraill.

Gwasanaethau carchar

Ceir darlun cymysg o ran argaeledd gwasanaethau a chyfleoedd i siarad Cymraeg mewn carchardai. Gwelwyd, er enghraifft:

- ymwybyddiaeth fod gwasanaethau Cymraeg i fod ar gael, ond nad oeddent ar gael mewn gwirionedd;
- gwasanaethau'n cael eu hysbysebu ond ddim ar gael;
- gwasanaethau'n ddibynnol ar argaeledd staff;
- profiadau'n llawer gwell o fewn Cymru nag yn Lloegr;
- profiadau cyferbyniol o fewn yr un carchar.

O ran gwasanaethau penodol:

- roedd dros hanner y cyfweleion wedi methu â chael ffurflenni a deunyddiau tebyg yn Gymraeg;
- ymddengys fod y ddarpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, ar y cyfan, yn gyfyngedig i ddosbarthiadau i ddysgu neu wella Cymraeg;
- roedd llyfrau llyfrgell Cymraeg, a mynediad at S4C a Radio Cymru, ar gael yng Nghymru ond nid yn Lloegr;
- nid oes gwasanaeth caplan Cymraeg ar gael mewn dim un carchar, er ei fod yn rhan allweddol o'r gofal emosiynol a seicolegol a roddir i garcharorion.

Argymhelliad 7

Dylai HMPPS gryfhau ei drefniadau er mwyn monitro argaeledd ac ansawdd y gwasanaethau Cymraeg a gynigir o fewn carchardai, a rhoi cefnogaeth i garchardai gynnig y gwasanaethau hynny.

Gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau allanol

Mae'r dystiolaeth a dderbyniodd y Comisiynydd gan sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal o fewn carchardai yng Nghymru a Lloegr yn awgrymu bod rhai prosesau mewn lle i ystyried anghenion iaith defnyddwyr, ond ni dderbyniwyd llawer o wybodaeth ynghylch gweithrediad gwasanaethau Cymraeg o ddydd i ddydd.

Argymhelliad 8

Dylai HMPPS adolygu ei drefniadau ar gyfer sicrhau bod gwasanaethau a gynigir o fewn carchardai gan sefydliadau allanol yn cydnabod y ffaith fod gwasanaethau Cymraeg yn arwain at ganlyniadau gwell i siaradwyr Cymraeg.

6. Cynllunio'r gweithlu

Pwysigrwydd cynllunio'r gweithlu

Mae profiadau carcharorion yn ddibynnol iawn ar sicrhau cyflenwad digonol o staff sy'n siarad Cymraeg, sicrhau bod yr holl staff yn parchu pwysigrwydd gallu defnyddio'r Gymraeg, a sicrhau bod carcharorion yn gwybod am gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Casglu a defnyddio data ynghylch sgiliau staff

Nid oes data cyflawn na chyfredol ar gael ynghylch sgiliau Cymraeg staff carchardai, ond mae HMPPS yn gweithio i fynd i'r afael â hyn. Mae HMPPS wedi gwneud peth gwaith i godi ymwybyddiaeth carcharorion o ba swyddogion sy'n siarad Cymraeg.

Argymhelliad 9

Dylai HMPPS weithredu proses barhaus i gasglu data cyfredol ynghylch sgiliau iaith staff carchardai, a dylai ddefnyddio'r data hwnnw i gynllunio gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth carcharorion ynghylch y cyfleoedd iddynt ddefnyddio'r Gymraeg gyda staff.

Recriwtio

Yn sgil ymchwiliad diweddar gan y Comisiynydd i recriwtio staff ar gyfer CEM Berwyn, mae HMPPS wedi rhoi camau ar waith i asesu'r angen am sgiliau Cymraeg wrth recriwtio staff. Fodd bynnag, heb ddata ynghylch nifer y staff sy'n siarad Cymraeg, mae'n anodd dod i gasgliad ynghylch effeithiolrwydd y camau.

Argymhelliad 10

Dylai HMPPS gymryd camau, yn enwedig wrth recriwtio staff newydd, er mwyn sicrhau bod ganddo nifer digonol o staff er mwyn cynnig gwasanaethau i garcharorion sy'n siarad Cymraeg mewn modd cyson a dibynadwy.

Argymhelliad 11

Dylai HMPPS ystyried y ddarpariaeth Gymraeg o ddechrau'r broses wrth gynllunio i agor unrhyw garchardai newydd yng Nghymru, gan gynnwys cynllunio i recriwtio staff â sgiliau Cymraeg.

Hyfforddiant

Mae ymwybyddiaeth o'r cynllun iaith Gymraeg yn rhan o hyfforddiant cynefino staff carchardai, ond mae rhai o ganfyddiadau'r arolwg hwn (ynghylch casglu data ac ymyrryd â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg) yn awgrymu nad yw'r hyfforddiant mor effeithiol ag y dylai fod. Mae staff yn cael gwersi Cymraeg sylfaenol ond nid yw'n ymddangos fod ymdrechion sylweddol i ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu.

Argymhelliad 12

Dylai HMPPS adolygu'r hyfforddiant y mae'n ei gynnig i staff carchardai er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion a amlygir yn yr adroddiad hwn, yn benodol o ran cofnodi data ynghylch siaradwyr Cymraeg ac ymyrryd â'r rhyddid i siarad Cymraeg, ac archwilio'r posibilrwydd o gynyddu ei gapasiti drwy ddatblygu sgiliau iaith ei staff presennol.

7. Gwrando ar lais carcharorion

Y gallu i gwyno am faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg

Mynegodd carcharorion beth drwgdybiaeth o brosesau cwyno mewnol. Anelir i ddelio'n anffurfiol â chwynion yn y lle cyntaf, ac mae manteision i hynny o ran datrys problemau'n gyflym a hwyluso perthnasoedd o fewn y carchar. Ar y llaw arall, efallai ei fod yn arwain at ddiffyg cofnodi, gan olygu nad yw gwersi'n cael eu dysgu, ac mewn rhai achosion fod swyddogion yn ceisio atal cwynion. Nid yw'n ymddangos fod ymwybyddiaeth o'r gallu i gwyno wrth y Comisiynydd, a bydd anawsterau ymarferol i garcharorion wneud cwyn wrth sefydliad allanol.

Argymhelliad 13

Dylai HMPPS sicrhau bod prosesau ar gyfer delio â chwynion mewnol yn rhoi hyder i garcharorion fod materion yn cael eu datrys yn briodol, ac yn galluogi carchardai i wella'u gwasanaethau.

Argymhelliad 14

Dylai HMPPS sicrhau bod carcharorion yn ymwybodol fod ganddynt hawl i gwyno wrth y Comisiynydd am faterion yn ymwneud â'r Gymraeg, a dylai hwyluso unrhyw gŵyn y dymuna carcharor ei gwneud.

Ymgysylltu â charcharorion

Mae HMPPS wedi cynnal grwpiau ffocws er mwyn casglu barn carcharorion ynghylch eu profiadau ac ymgynghori ar faterion fel diwygio'r cynllun iaith Gymraeg. Mae hyn yn ddatblygiad cadarnhaol y dylid ei ymestyn.

Argymhelliad 15

Dylai HMPPS barhau â'i ymdrechion i ymgysylltu â charcharorion er mwyn dysgu am eu profiadau ac ymgynghori ynghylch datblygiadau.

Monitro ac atebolrwydd

Mae HMPPS yn adrodd yn flynyddol wrth y Comisiynydd ar weithrediad ei gynllun iaith, ac yn ymweld â charchardai er mwyn monitro gwasanaethau Cymraeg. Mae wrthi'n diwygio'i gynllun iaith Gymraeg.

Fel y sefydliad sy'n gyfrifol yn y pen draw am HMPPS, mae gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder rôl bwysig i'w chwarae wrth sicrhau bod y ddarpariaeth i siaradwyr Cymraeg yn ddigonol.

Argymhelliad 16

Dylai HMPPS ystyried canfyddiadau'r arolwg hwn wrth ddiwygio'i gynllun iaith Gymraeg, a sicrhau bod ganddo drefniadau atebolrwydd priodol ar gyfer monitro cynnydd wrth weithredu'r argymhellion.

Argymhelliad 17

Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sicrhau bod y cyfeiriad polisi, yr adnoddau a'r trefniadau atebolrwydd sydd ganddi mewn lle mewn perthynas â HMPPS yn golygu bod y ddarpariaeth Gymraeg i garcharorion yn ddigonol.

1. Pam y cynhaliwyd yr arolwg hwn?

Rôl y Comisiynydd mewn perthynas â charchardai

Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am sicrhau bod sefydliadau – gan gynnwys Gwasanaeth Carchardai a Phrofiant EM (HMPPS) – yn cydymffurfio â'u dyletswyddau cyfreithiol o ran y Gymraeg, ac am sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae carchardai o ddiddordeb arbennig am eu bod yn ymwneud â llesiant pobl fregus mewn sefyllfa anodd, a chydweithio rhwng sefydliadau sy'n gweithredu mewn gwahanol gyfundrefnau gwleidyddol.

1.1 Prif nod y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, gan roi sylw i ddwy egwyddor, sef na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru, ac y dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae'r Comisiynydd yn gwneud hyn mewn ffyrdd amrywiol, gan gynnwys:

- rheoleiddio gweithrediad dyletswyddau iaith sefydliadau cyhoeddus (safonau'r Gymraeg a chynlluniau iaith Gymraeg);
- casglu gwybodaeth am brofiadau siaradwyr Cymraeg;
- gwneud ymchwil a chyhoeddi adroddiadau;
- cadw gorolwg ar y gyfraith sy'n ymwneud â'r Gymraeg;
- rhoi cyngor i sefydliadau.

- 1.2 Mae'r maes carchardai'n un sydd o ddiddordeb arbennig i'r Comisiynydd, gan ei fod yn ymwneud â:
- phobl fregus, ddifreintiedig sydd mewn sefyllfa anodd. Golyga hynny y gall fod yn heriol i'w llais gael ei glywed;
 - nifer o sefydliadau amrywiol, sy'n gweithredu gwahanol ddyletswyddau iaith, yn cydweithio i ddarparu gwasanaeth;
 - rhai materion sydd wedi eu datganoli i Gymru, ac eraill sy'n dal yn gyfrifoldeb Llywodraeth y DU.
- 1.3 Mae gan Wasanaeth Carchardai a Phrofiant EM (HMPPS), un o asiantaethau gweithredol y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n gyfrifol am redeg carchardai yng Nghymru a Lloegr, gynllun iaith Gymraeg dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Er hwylustod, cyfeirir at HMPPS drwy gydol yr adroddiad, er mai'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) oedd enw'r gwasanaeth tan 2017.
- 1.4 Mae'r cynllun yn cynnwys ymrwymadau sy'n ymwneud â gwasanaethau Cymraeg corfforaethol y bydd HMPPS yn eu darparu i'r cyhoedd, staffio, a gwasanaethau Cymraeg a gynigir mewn carchardai. Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am fonitro gweithrediad y cynllun iaith ac am ddelio â chwynion cysylltiedig.
- 1.5 Mae'r Comisiynydd hefyd yn gyfrifol am reoleiddio gweithrediad dyletswyddau iaith sefydliadau eraill perthnasol, er enghraifft cynlluniau iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder a byrddau iechyd, a safonau'r Gymraeg a osodwyd ar awdurdodau lleol.

Amcanion yr arolwg

Roedd cwestiynau'r arolwg yn canolbwyntio ar hawliau carcharorion; effeithiolrwydd sefydliadau wrth weithredu'r hawliau hynny; profiadau carcharorion a'u teuluoedd; a'r gallu i gwyno am faterion yn ymwneud â'r Gymraeg.

Mae'r adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion at sylw HMPPS, ond bydd y canfyddiadau hefyd o ddiddordeb i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder; rheolwyr carchardai unigol yng Nghymru a Lloegr; sefydliadau allanol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau mewn carchardai; Aelodau Seneddol ac Aelodau Cynulliad; sefydliadau a mudiadau sy'n dylanwadu ar bolisi ym maes carchardai; ac aelodau'r cyhoedd.

Cynhaliwyd yr arolwg rhwng mis Gorffennaf 2017 a mis Medi 2018 drwy gynnal arolwg o ddogfennaeth a deddfwriaeth berthnasol; cynnal cyfweiliadau â charcharorion a chyn-garcharorion; ysgrifennu at sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau mewn carchardai (awdurdodau lleol a byrddau iechyd) a sefydliadau eraill sydd â diddordeb yn y maes; ac ymweld â charchardai a chynnal cyfarfodydd â swyddogion carchardai a HMPPS.

1.6 Wrth gynnal yr arolwg, roedd y Comisiynydd yn dymuno ateb cwestiynau fel:

- Beth yw hawliau carcharorion i ddefnyddio'r Gymraeg, a pha ddeddfau neu godau ymarfer sy'n cefnogi'r hawliau hynny?
- Pa mor effeithiol yw sefydliadau perthnasol wrth weithredu hawliau carcharorion i ddefnyddio'r Gymraeg?
- Beth yw profiadau carcharorion a'u teuluoedd sydd am ddefnyddio'r Gymraeg yng ngharchardai Cymru a Lloegr? Pa ffactorau sy'n dylanwadu ar hyn (e.e. rhywedd)?
- A all carcharorion gwyno os ydynt yn anfodlon â darpariaeth Gymraeg?

1.7 Bwriad y Comisiynydd yw y bydd y bobl ganlynol yn rhoi sylw i'r adroddiad:

- **Gwasanaeth Carchardai a Phrofiant EM** – mae'r adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion penodol at sylw HMPPS;
- **Y Weinyddiaeth Gyfiawnder** – fel yr adran weinidogol sy'n gyfrifol am HMPPS, dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sicrhau bod HMPPS yn rhoi sylw i argymhellion yr adroddiad, a dylai ystyried anghenion siaradwyr Cymraeg wrth ddatblygu'r cyfeiriad strategol ar gyfer y gwasanaeth carchardai;
- **rheolwyr carchardai unigol yng Nghymru a Lloegr** – mae'r adroddiad yn tynnu sylw at brofiadau carcharorion a materion ymarferol mewn carchardai. Bydd hyn yn galluogi rheolwyr i sicrhau nad yw diffygion o'r fath yn cael eu hailadrodd yn y carchardai y maent yn gyfrifol amdanynt;
- **sefydliadau allanol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau mewn carchardai**, er enghraifft awdurdodau lleol a byrddau iechyd;
- **Aelodau Seneddol ac Aelodau Cynulliad** – bydd canfyddiadau'r arolwg yn galluogi gwleidyddion i graffu ar weithrediad y system carchardai, ac ymateb i bryderon gan etholwyr ynghylch defnyddio'r Gymraeg yn y carchar;
- **sefydliadau a mudiadau sy'n dylanwadu ar bolisi ym maes carchardai**;
- **aelodau'r cyhoedd**, yn enwedig pobl â phrofiadau uniongyrchol neu anuniongyrchol o'r system carchardai – mae gan y Comisiynydd ddiddordeb mewn clywed a yw'r profiadau y sonnir amdanynt yn yr adroddiad yn adlewyrchu profiad pobl sydd wedi bod yn y carchar, neu sydd â chyswllt personol â charcharorion neu gyn-garcharorion.

1.8 Roedd yr arolwg yn brosiect dros flwyddyn o hyd, rhwng mis Gorffennaf 2017 a mis Hydref 2018. Defnyddiwyd 4 prif ddull i gasglu gwybodaeth, sef:

- arolwg pen-desg o'r ddeddfwriaeth a'r llenyddiaeth berthnasol;
- cyfweiliadau strwythuredig ag 18 o garcharorion a chyn-garcharorion ynghylch eu profiadau (4 menyw ac 14 dyn);
- ymweld â charchardai, gohebiaeth, a chynnal cyfweiliadau â rheolwyr a swyddogion yng ngharchardai Altcourse, Berwyn a Brynbuga, rheolwyr yn HMPPS Cymru, a rheolwyr yn HMPPS yn ganolog;
- gofyn i'r sefydliadau a ganlyn lenwi holiadur byr:
 - awdurdodau lleol yng Nghymru, a rhai yn Lloegr, sydd â charchar yn eu hardal (gohebwyd â 7 sefydliad; derbyniwyd ymateb gan 2 o Gymru ac 1 o Loegr);
 - byrddau iechyd yng Nghymru, a rhai yn Lloegr, sydd â charchar yn eu hardal (gohebwyd â 6 sefydliad; derbyniwyd ymateb gan 3 o Gymru);
 - elusennau a sefydliadau sydd â diddordeb yn y maes (gohebwyd â 26 sefydliad; derbyniwyd ymateb gan 3).

Pam mae angen ystyried y Gymraeg yn y carchar?

Mae'r Comisiynydd o'r farn fod angen diwallu anghenion iaith carcharorion sy'n siarad Cymraeg er mwyn rhoi'r cyfle gorau iddynt gael eu hadsefydlu'n effeithiol. Mae galluogi carcharorion i'w mynegi eu hunain yn eu hiaith eu hunain yn arbennig o bwysig gan ystyried bod gan garcharorion fwy o anghenion na'r boblogaeth yn gyffredinol o ran anawsterau ac anableddau dysgu, ac o ran iechyd meddwl a chorfforol.

- 1.9 Persbectif y Comisiynydd wrth gynnal yr arolwg oedd bod ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i garcharorion yn ddibynnol ar iaith y gwasanaeth hwnnw, ac y gall methu â darparu ar gyfer anghenion iaith siaradwyr Cymraeg fod yn rhwystr i adsefydlu'r unigolion hynny'n effeithiol.
- 1.10 Mae'r Comisiynydd eisiau sicrhau nad yw siaradwyr Cymraeg yn dioddef canlyniadau llai ffafriol na'u cyd-garcharorion oherwydd diffyg ystyriaeth o'u hanghenion iaith. Waeth beth yw'r rhesymau dros eu carcharu, mae gan siaradwyr Cymraeg hawliau statudol y dylai sefydliadau roi effaith iddynt, ac mae ganddynt anghenion penodol yn sgil y ffaith eu bod yn siarad Cymraeg.
- 1.11 Gall cyfnod yn y carchar gael effeithiau sylweddol ar fywydau unigolion. Y nod yw bod carcharorion yn cael eu hadsefydlu'n llwyddiannus i gymdeithas, ac nad ydynt yn troseddu eto ar ôl gadael y carchar.
- 1.12 Mae dimensiwn iaith cryf i bob un o'r ymyriadau sy'n cael eu cydnabod fel y rhai gorau ar gyfer adsefydlu carcharorion yn effeithiol, gan gynnwys y rheiny a adnabuwyd mewn [adroddiad](#) gan y Pwyllgor Materion Cartref yn 2005:
- asesu anghenion yn drylwyr er mwyn dewis yr ymyriadau gorau;
 - rhaglenni ymddygiad a sgiliau gwybyddol;
 - addysg, hyfforddiant galwedigaethol a phrofiad gwaith er mwyn ennill sgiliau;
 - adsefydlu yn y gymuned – canfod llety, gwaith ac ati.

- 1.13 Mae ystyried anghenion ieithyddol pobl yn hanfodol wrth ystyried eu llesiant. Er enghraifft, gellir cymhwyso rhai o ganfyddiadau ymholiad gofal sylfaenol y Comisiynydd yn 2015 i ymwneud carcharorion ag awdurdodau'r carchar. Dangosodd yr ymatebion i'r ymholiad fod siaradwyr Cymraeg yn credu:
- eu bod yn gallu mynegi eu hanghenion yn well yn Gymraeg;
 - bod gallu siarad Cymraeg mewn ymgynghoriadau'n bwysig o ran parch ac urddas;
 - bod cydnabod dewis iaith unigolion yn rhan bwysig o gydnabod a pharchu eu hunaniaeth.
- 1.14 Mae proffil poblogaeth carchardai'n wahanol i gymdeithas yn gyffredinol mewn sawl ffordd. Mae sawl un o'r gwahaniaethau hyn yn golygu bod ateb anghenion iaith yn hanfodol er mwyn sicrhau llesiant carcharorion. Er enghraifft, bydd gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith o fudd mawr i bobl ag anableddau ac anawsterau dysgu, dioddefwyr problemau iechyd meddwl, pobl hŷn a dioddefwyr dementia:
- dengys [data](#) a gasglwyd gan y Prison Reform Trust fod carcharorion yn fwy tueddol o fod ag anableddau ac anawsterau dysgu na'r boblogaeth yn gyffredinol. Nododd [adroddiad yr Arglwydd Bradley](#) (2009) ar iechyd meddwl ac anawsterau dysgu a'r system carchardai fod amgylchedd carchar yn heriol i bobl ag anawsterau ac anableddau dysgu oherwydd "prison terminology and complex rules and regimes";
 - dengys data'r Prison Reform Trust hefyd fod canrannau sylweddol o garcharorion yn dioddef o gyflyrau iechyd meddwl, gan gynnwys lefelau uwch o symptomau seicosis na'r cyhoedd yn gyffredinol;
 - dangosodd adroddiad [Doing Time](#) (2008) y Prison Reform Trust mai pobl dros 60 oed yw'r grŵp o garcharorion sy'n tyfu gyflymaf, a bod dementia'n dod yn broblem gynyddol. Mae dros hanner carcharorion oedrannus yn dioddef o afiechyd meddwl, iselder yn bennaf, a charcharorion hŷn yn dueddol o fod mewn cyflwr iechyd llawer gwaeth na'u cyfoedion sydd ddim yn y carchar. Mae angen

pobl hŷn am wasanaethau iechyd yn uwch, a'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn allweddol. Cyhoeddodd y Comisiynydd yr adroddiad [Gofal Dementia Siaradwyr Cymraeg](#) fis Tachwedd 2018.

2. Polisi carchardai yng Nghymru

Cyd-destun

Ochr yn ochr â thrafodaethau cyffredinol am bolisi carchardai yng Nghymru a Lloegr, sy'n ymwneud â materion fel diogelwch, hil ac addysg, mae trafodaeth benodol i Gymru wedi bod yn digwydd, wedi ei harwain gan Bwyllgor Materion Cymreig Senedd y DU. Themâu amlwg yn y drafodaeth honno yw datblygu carchardai yng Nghymru, y Gymraeg, a datganoli.

- 2.1 Mae polisi carchardai'n rhan fynych o ddisgwrs cyhoeddus, ac yn cael ei drafod o sawl cyfeiriad. Ar lefel y DU, agweddau amlwg ar drafodaethau cyfredol yw:
- ymdrechion i leihau troseddu a chamddefnyddio cyffuriau o fewn carchardai, er enghraifft cynigion papur gwyn y Weinyddiaeth Gyfiawnder, [Diogelwch Carchardai a'u Diwygio](#) (Tachwedd 2016), i roi mwy o rym i lywodraethwyr, cynnal gwiriadau llymach, gwella hyfforddiant i staff, a buddsoddi'n drwm mewn diwygiadau i'r ystâd;
 - materion ynghylch hil a chydaddoldeb yn sgil cyhoeddi [adolygiad annibynnol](#) (Medi 2017) gan David Lammy AS o'r driniaeth a gaiff unigolion Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y system cyfiawnder troseddol, a'u canlyniadau;
 - datblygu addysg mewn carchardai mewn ymateb i [adolygiad](#) y Fonesig Sally Coates (Mai 2016), a nodai fod addysg yn un o'r "pillars of effective rehabilitation. Education should build social capital and improve the well-being of prisoners during their sentences." Roedd yr argymhellion yn ymwneud â rôl Llywodraethwyr, staffio, cynyddu uchelgais carcharorion,

defnyddio technoleg gwybodaeth i wella addysg mewn carchardai, a defnyddio addysg i wella cyfleoedd cyflogaeth ac addysg carcharorion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

- 2.2 Ochr yn ochr â hyn, mae trafodaeth benodol i Gymru wedi bod yn digwydd dros y blynyddoedd diwethaf hefyd, wedi ei harwain i raddau mawr gan gyfres o ymchwiliadau gan Bwyllgor Materion Cymreig Senedd y DU. Themâu allweddol sy'n berthnasol i'r arolwg hwn yw:
- datblygiad carchardai yng Nghymru, gan gynnwys yr angen am garchar yng ngogledd Cymru a chynyddu'r ddarpariaeth i fenywod a phobl ifanc;
 - y ddarpariaeth Gymraeg i garcharorion;
 - goblygiadau datganoli rhai grymoedd i weithrediad y system cyfiawnder troseddol (sydd heb ei datganoli).

- 2.3 Mae'r Pwyllgor yn cynnal [ymchwiliad ar hyn o bryd](#). Darparodd y Comisiynydd dystiolaeth [ysgrifenedig](#) a [llafar](#) i'r ymchwiliad, ac mae'r sylwadau hynny wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad hwn.

Datblygu carchardai yng Nghymru

Mae CEM Berwyn bellach wedi agor yn dilyn blynyddoedd o drafod a chynllunio; roedd cyfle i ddarparu ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn un o'r dadleuon dros gael carchar yng ngogledd Cymru. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd yn bwriadu agor carchar newydd yn ne Cymru, ond ni fydd Llywodraeth Cymru'n hwyluso'r bwriad hwnnw heb drafodaethau pellach ynghylch gwasanaethau a chymorth i adsefydlu.

- 2.4 Cynhaliodd y Pwyllgor Materion Cymreig [ymchwiliad yn 2006-07](#). Roedd ei argymhellion yn cynnwys creu lleoedd carchar yng ngogledd Cymru, a chynyddu'r ddarpariaeth i garcharorion ifanc a benywaidd, oherwydd:

The rehabilitation and resettlement of many Welsh prisoners is hampered by their distance from home. Losing contact with families and communities makes resettlement more difficult for prisoners, and the distances agencies are required to travel places a strain on their resources and restricts the scope of their work.

- 2.5 Roedd yr ymchwiliad a gynhaliodd y Pwyllgor Materion Cymreig yn 2009-10 yn [ddilyniant](#) i adroddiad 2006-07. Deliai'r adroddiad dilynol hwn yn bennaf â datblygiadau o ran sefydlu carchar yng ngogledd Cymru, gan nodi bod y Llywodraeth wedi tynnu'n ôl o gynllun i adeiladu carchar yng Nghaernarfon. Nododd y Pwyllgor na ddylai polisi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder o ffafrio carchardai mawr atal sefydlu carchar yng ngogledd Cymru.

- 2.6 Erbyn i'r Pwyllgor gynnal [ymchwiliad pellach yn 2014-15](#), roedd cynlluniau mewn lle ar gyfer agor CEM Berwyn, a deliai'r adroddiad â materion ymarferol o ran agor CEM Berwyn a rheolaeth o'i wahanol unedau. Tynnwyd sylw at orlenwi carchardai yng Nghymru mewn cymhariaeth â charchardai yn Lloegr.

- 2.7 Agorwyd CEM Berwyn yn 2017 yn dilyn blynyddoedd o bwysu am garchar yng ngogledd Cymru. Mae CEM Berwyn yn garchar ar gyfer dynion yn unig, a phan fydd yn gweithredu'n llawn dyma fydd y carchar mwyaf yn y DU, gyda 2,106 o garcharorion. Bwriadwyd i CEM Berwyn fod yn batrwm ar gyfer carchardai i'r dyfodol, o ran ei faint ac ansawdd y cyfleusterau, ac hefyd o ran ei ffocws ar adsefydlu. Wrth iddynt ymweld â'r carchar, pwysleisiwyd wrth swyddogion y Comisiynydd fod y carchar wedi ei sefydlu ar werthoedd, a bod gwasanaethau yno wedi eu cynllunio i gynnal hunan-barch y carcharorion a sicrhau eu bod yn barod am fywyd y tu allan i'r carchar.
- 2.8 [Cyhoeddodd](#) yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder fis Mawrth 2017 ei bod wedi dewis safle ym Maglan, Castell-nedd Port Talbot, ar gyfer adeiladu carchar newydd.
- 2.9 Pe bai carchar newydd yn cael ei adeiladu yng Nghymru, byddai hyn yn gyfle i recriwtio staff â sgiliau Cymraeg, a chynllunio'r ddarpariaeth Gymraeg o'r cychwyn. Mae rhai o ganfyddiadau'r adroddiad hwn yn awgrymu na ddigwyddodd hynny i raddau digonol wrth sefydlu CEM Berwyn.
- 2.10 Fodd bynnag, mae'r cynlluniau ar gyfer carchar Baglan yn ddibynnol ar gydweithrediad rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys mewn materion yn ymwneud â gwerthiant tir. Mewn [datganiad gweinidogol](#) fis Ebrill 2018, nododd Ysgrifennydd y Cabinet Llywodraeth Cymru dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Alun Davies AC bryderon ynghylch y gwasanaethau a'r cymorth a roddir i sicrhau bod carcharorion yn cael eu hadsefydlu'n effeithiol ac nad ydynt yn aildroseddu. Nododd bryder "y bydd y galw ar wasanaethau cyhoeddus Cymru yn parhau i gynyddu, ac y bydd pobl o fewn ein system cyfiawnder troseddol yn dioddef canlyniadau gwaeth os na fyddwn yn cynnal trafodaethau ystyrlon a manwl â Llywodraeth y DU".

- 2.11 Yn sgil hynny, nododd yr Ysgrifennydd Cabinet ei fod “wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder i roi gwybod iddo na fyddwn yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu carchardai ymhellach yng Nghymru heb i drafodaethau mwy ystyrlon gael eu cynnal â Llywodraeth Cymru”.
- 2.12 Mae pryderon wedi eu codi ynghylch y bwriadau i godi carchardai newydd yng Nghymru gan y byddai hynny'n debygol o arwain at fwy o leoedd carchar yng Nghymru nag o garcharorion o Gymru. Yr enghraifft fwyaf amlwg o bryder am hyn yw [sylwadau](#) Frances Crook, Prif Weithredwr yr Howard League for Penal Reform (Medi 2017), a gyfeiriai at “England shoving its urban poor onto the hulks & shipping them off to Wales”.
- 2.13 Cadarnhaodd HMPPS wrth y Comisiynydd ei fod yn dal yn ymrwymedig i adeiladu carchar yn ne Cymru, a'i fod yn ymgysylltu ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru yngylch safleoedd posib. Dywedodd hefyd ei fod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru “when these matters link up with devolved services to make sure these work smoothly in Wales”. Pwysleisiodd fanteision economaidd carchar newydd, a'i nod o “replacing older prisons with high-quality, modern establishments and supporting local communities”.

Y Gymraeg

Mae'r Pwyllgor Materion Cymreig wedi nodi ar ddau achlysur, y cyntaf dros 10 mlynedd yn ôl, fod data ynghylch siaradwyr Cymraeg yn y carchar yn annerbyniol o brin, a bod angen gwella gwasanaethau Cymraeg mewn carchardai.

2.14 Yn ychwanegol at y disgwyliad y byddai datblygu carchar yng ngogledd Cymru'n gwella'r ddarpariaeth i siaradwyr Cymraeg, mae rhai o ymchwiliadau'r Pwyllgor Materion Cymreig wedi cyfeirio'n benodol at y ddarpariaeth Gymraeg.

2.15 Nodai adroddiad ymchwiliad y Pwyllgor yn 2006-07:

There is poor information on the number of Welsh speaking prisoners, and consequent under-provision of Welsh language materials in prisons in which they are held. Welsh medium education should be provided for all juvenile offenders who need it, and better Welsh language materials should be provided for adults.

2.16 Nodai adroddiad ymchwiliad y Pwyllgor yn 2014-15:

The data collected on Welsh speakers in prison is unacceptably poor. We recommend that the Ministry of Justice, NOMS, the Welsh Language Commissioner and HM Inspectorate of Prisons work together to evaluate thoroughly the need for and quality of Welsh language support in prisons in England and Wales.

Datganoli

Mae'r ffaith fod Llywodraeth y DU'n gyfrifol am y system carchardai, ond bod nifer o faterion sy'n effeithio ar lesiant carcharorion wedi eu datganoli i Gymru, yn arwain at sefyllfa gymhleth a rhai anawsterau.

2.17 Wrth i'r Pwyllgor Materion Cymreig gynnal ei ymchwiliad yn 2006-07, roedd rhai grymoedd mewn perthynas â chyfiawnder troseddol ar fin cael eu datganoli i Gymru a chredai'r Pwyllgor fod hynny'n creu cyfle i Gymru ymagweddu at y maes mewn dull gwahanol i weddill y DU.

2.18 Nodai adroddiad ymchwiliad y Pwyllgor yn 2014-15:

Although criminal justice is currently the responsibility of the UK Government, the Welsh Government has significant responsibilities, particularly in the areas of health, education, housing and substance misuse. Co-ordination and co-operation between all the relevant parties must continue.

2.19 Ystyriodd Comisiwn Silk, fel rhan o'i [ail adroddiad](#) (Mawrth 2014), fanteision ac anfanteision datganoli pwerau dros garchardai i Gymru.

2.20 Roedd y manteision yn cynnwys y gallu ddatblygu polisïau penodol i Gymru o ran mynd i'r afael ag aildroseddu ac ailgymhathu troseddwy'r gymuned; darparu ar gyfer menywod; a "bod yn fwy sensitif i anghenion carcharorion Cymraeg eu hiaith". Ar y llaw arall, cyfeiriwyd at anfanteision yn cynnwys cymhlethdod ymyrryd â gwasanaeth sy'n integredig rhwng Cymru a Lloegr; anhyblygrwydd o ran symud carcharorion rhwng sefydliadau; a chostau untro a blynyddol ychwanegol (yn enwedig wrth sefydlu darpariaeth i fenywod).

- 2.21 O gydbwyso'r manteision a'r anfanteision, daeth Comisiwn Silk i'r casgliad a ganlyn (nid yw'r argymhelliad wedi ei weithredu hyd yma):

Ar sail ein hegwyddorion, credwn fod dadl gref o blaid datganoli'r gwasanaeth carchardai, yn ogystal â'r gwasanaethau prawf. Ond rydym hefyd yn sylweddoli bod anawsterau ynghlwm wrth weithredu yn y maes hwn. Fel cam cyntaf, dylai'r ddwy Lywodraeth gynnal asesiad dichonoldeb ar y cyd, a'i gyhoeddi.

- 2.22 Sefydlodd Prif Weinidog Cymru'r [Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru](#) yn 2017, i'w gadeirio gan yr Arglwydd Thomas o Gwmgiedd. Un o nodau'r Comisiwn yw gosod gweledigaeth hirdymor ar gyfer "hyrwyddo gwell canlyniadau o ran mynediad at gyfiawnder, gostwng nifer yr achosion o droseddu a hybu'r broses adsefydlu".

- 2.23 Wrth roi [tystiolaeth lafar](#) i ymchwiliad cyfredol y Pwyllgor Materion Cymreig i garchardai yng Nghymru fis Mehefin 2018, nododd Ysgrifennydd y Cabinet Llywodraeth Cymru dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Alun Davies AC:

My experience of Government here is that the devolved settlement works best where it is clear and there is clarity and accountability on both sides of the border and that it works at its worst where there is a lack of clarity and accountability for the delivery of a whole system approach to policy.

My feeling is that the settlement that we currently have for this area of policy is not one that enables us to deliver the best for the people we all seek to serve. I think that the criminal justice system in Wales probably needs and deserves a more coherent approach to the creation and delivery of policy and services. I believe that the people we all seek to represent, whether it is in Westminster or Cardiff Bay, deserve better from us as politicians. The current structure we have does not deliver the best services or support for people.

3. Lleoli

Pwysigrwydd lleoliad carcharorion

Mae'n fanteisiol lleoli carcharorion sy'n siarad Cymraeg mewn carchardai yng Nghymru, oherwydd:

- mae'n debygol o leihau pellter carcharorion o'u cartref, gan alluogi gwell cyswllt â theuluoedd a chymunedau, a chynyddu'r tebygolrwydd o adsefydlu'n llwyddiannus;
- mae mwy o hawliau cyfreithiol i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru nag yn Lloegr yn sgil y rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg, ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg HMPPS, a chyfrifoldebau awdurdodau lleol yng Nghymru o ran gofal a chymorth.

Lleihau pellter carcharorion o'u cartref

- 3.1 Mae niferoedd sylweddol o bobl yn siarad Cymraeg ym mhob rhan o Gymru, nid dim ond yn y gogledd a'r gorllewin – er enghraifft, yn ôl Cyfrifiad 2011, mae dros 36,000 o siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd a dros 27,000 yn Rhondda Cynon Taf. Bydd nifer helaeth o'r siaradwyr Cymraeg hynny'n fwy cyfforddus yn eu mynegi eu hunain ac yn derbyn gwybodaeth yn Gymraeg.
- 3.2 Fodd bynnag, mae'r ardaloedd sydd â'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yng ngogledd a gorllewin y wlad. Mae [Arolwg Defnydd Iaith 2013-15](#) y Comisiynydd a Llywodraeth Cymru'n nodi mai "yn yr ardaloedd hyn y ceir y crynodiadau uchaf o siaradwyr Cymraeg felly

mae'n debyg bod yr ardaloedd hyn yn cynnig mwy o gyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith yn aml".

- 3.3 Mae lleoli siaradwyr Cymraeg mewn carchardai yn Lloegr yn debygol o olygu eu bod yn cael eu lleoli'n bellach o'u cartref, ac mae'r pellter yn mynd i fod yn fwy ar gyfer carcharorion o'r ardaloedd hynny lle maent yn fwyaf tebygol o fod yn defnyddio'r Gymraeg yn aml. Dyma'r unigolion a fydd leiaf cyfforddus yn eu mynegi eu hunain yn Saesneg.
- 3.4 Mae cytundeb cyffredinol fod lleoli carcharorion yn nes at adref yn arwain at well canlyniadau.
- 3.5 Nododd adroddiad yr Arglwydd Farmer, [The Importance of Strengthening Prisoners' Family Ties to Prevent Reoffending and Reduce Intergenerational Crime](#) (Awst 2017), fod cynnal cysylltiadau teuluol a chymunedol yn "indispensable to the rehabilitation culture we urgently need to develop in our penal system". Mae hynny am ei fod yn helpu carcharorion i "forge a new identity for themselves, an important precursor to desistance from crime, based on being a good role model to their children, a caring husband, partner and friend and a reliable provider through legal employment". Roedd argymhellion adolygiad Farmer yn cynnwys datblygu'r defnydd o dechnoleg fideo, a gwella trefniadau teithio a llety, ar gyfer teuluoedd pobl sydd mewn carchardai pell neu anhygyrch.
- 3.6 Mae [ymchwil](#) ar ran y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi dangos bod carcharorion sydd ddim yn cael ymweliadau gan eu teulu 39% yn fwy tebygol o aildroseddu na carcharorion a oedd wedi cael ymweliadau.
- 3.7 Yn ogystal â chynnal cysylltiadau teuluol a chymunedol, mae bod mewn carchar yn agos at adref yn debygol o fod yn well o safbwynt mynd yn ôl i fywyd y tu allan i'r carchar, er enghraifft drwy hwyluso trefniadau canfod gwaith a llety, a rhyddhau ar drwydded dros dro.

Hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg

- 3.8 Dengys dadansoddiad o'r ddeddfwriaeth berthnasol fod gan garcharorion fwy o hawliau cyfreithiol i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru nag yn Lloegr.
- 3.9 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn creu'r **rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg**. Golyga y gall y Comisiynydd ddyfarnu a yw rhywun wedi ymyrryd â rhyddid dau berson arall i siarad Cymraeg â'i gilydd, er enghraifft drwy nodi na ddylen nhw ddefnyddio'r Gymraeg â'i gilydd neu achosi anfantais iddynt am wneud hynny. Sefyllfaoedd mewn carchardai y byddai'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg yn berthnasol iddynt yw sgysiau â chyd-garcharorion, ymweliadau, a galwadau ffôn neu ohebiaeth â phobl y tu allan i'r carchar. Dim ond o fewn Cymru y mae'r hawl hon yn bodoli.
- 3.10 Noda **cynllun iaith Gymraeg HMPPS** y gall carchardai unigol yng Nghymru gynnig lefel uwch o wasanaethau Cymraeg, er bod "gwasanaeth sylfaenol yn y Gymraeg yn ofynnol ym mhob carchar yng Nghymru a Lloegr". Ceir achosion yn y cynllun iaith o wahaniaethu rhwng y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig yng ngharchardai Cymru a Lloegr, er enghraifft nid yw'n bosib gwyllo S4C mewn carchardai yn Lloegr fel arfer, ond mae S4C ar gael yng Nghymru fel rheol. Mae carchardai yng Nghymru'n fwy tebygol o allu recriwtio staff sy'n siaradwyr Cymraeg.
- 3.11 Yr awdurdod lleol lle lleolir y carchar sy'n gyfrifol am ddarparu gofal a chymorth i garcharorion sy'n oedolion, yn yr un modd â thrigolion eraill y sir. Mae'r **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** yn rhoi dyletswyddau ar awdurdodau lleol yng Nghymru yn unig – nid yw'n berthnasol i Loegr. Mae codau ymarfer y Ddeddf yn pwysleisio pwysigrwydd iaith fel "rhan annatod" o ofal siaradwyr Cymraeg, ac yn nodi y dylent allu "gallu defnyddio eu hiaith eu hunain i gyfathrebu a chyfrannu at eu gofal fel partneriaid cyfartal". Mae'r codau ymarfer hefyd

yn creu nifer o ddyletswyddau ar awdurdodau lleol o ran y Gymraeg, gan gynnwys:

- “bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnig i siaradwyr Cymraeg heb iddynt orfod gofyn amdanynt”;
- darparu gwybodaeth a chynghor ar ofal a chymorth, a chymorth o ran cael mynediad at ofal a chymorth, yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan gynnwys mewn sefydliadau diogel;
- “rhaid i'r broses asesu gydnabod y cysyniad o anghenion iaith a dylai ymarferwyr sicrhau bod yr egwyddor cynnig gweithredol yn rhan annatod o ymarfer” – hynny yw, “dylid holi'r unigolyn pa iaith fyddai'n well ganddo ei defnyddio ar ddechrau'r broses”;
- “dylid cynnal asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg fel sy'n briodol i'r unigolyn neu'r teulu dan sylw”, heb i hynny ohirio'r broses;
- cwblhau'r set data craidd, gan gynnwys dewis iaith, pan fernir bod ar unigolyn angen cynllun gofal a chymorth.

Lleoli carcharorion – y broses

Wrth benderfynu ym mha garchar i leoli pob carcharor, ystyrir rhywedd, oedran, math o drosedd, categori diogelwch, capasiti, hyd dedfryd, a phellter o'u cartref. Ceir ymrwymiad i leoli carcharorion o Gymru yng Nghymru, ond ni chesglir data penodol am hyn. Does dim lleoedd carchar yng Nghymru ar gyfer menywod, pobl ifanc rhwng 18 a 20 oed, na charcharorion risg uchel. Ni chaiff y Gymraeg ei hystyried yn benodol wrth benderfynu yn lle i leoli carcharorion.

Argymhelliad 1

Dylai HMPPS ystyried addasu ei drefniadau ar gyfer lleoli carcharorion er mwyn sicrhau, pan fo hynny'n ymarferol, fod carcharorion sydd angen gwasanaethau Cymraeg yn cael eu lleoli yn y carchardai sydd fwyaf abl i ddarparu'r gwasanaethau hynny.

Carchardai yng Nghymru

3.12 Ar hyn o bryd, mae 5 carchar wedi eu lleoli yng Nghymru, sef:

Enw'r carchar	Categori	Gweinyddiaeth
CEM Abertawe	B	Cyhoeddus
CEM Caerdydd	B	Cyhoeddus
CEM a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc Parc	B	Preifat
CEM Berwyn	C	Cyhoeddus
CEM Brynbuga + Prescoed (rheolir y ddau safle fel un carchar)	C (Brynbuga) D (Prescoed)	Cyhoeddus

3.13 Does dim lleoedd carchar yng Nghymru ar gyfer menywod, pobl ifanc rhwng 18 a 20 oed, na charcharorion categori A (risg uchel) gwrywaidd.

Ymrwymadau a phrosesau HMPPS

- 3.14 Yr Uned Rheoli Carcharorion (PMU) o fewn HMPPS sy'n gyfrifol am benderfynu ymhle i leoli pob carcharor. Gall gwahanol garchardai gymryd carcharorion â gwahanol nodweddion ac anghenion, ac mae gan y PMU algorithm a ddefnyddir i gyfateb carcharorion â charchardai addas.
- 3.15 Dealltwriaeth y Comisiynydd yw bod y materion a ystyrir fel rhan o'r algorithm yn cynnwys:
- **rhywedd** – does dim carchardai ar gyfer merched yng Nghymru;
 - **oedran** – does dim carchardai ar gyfer pobl ifanc rhwng 18 a 20 oed yng Nghymru;
 - **math o drosedd** – er enghraifft, caiff troseddwyd rhyw eu cadw mewn unedau penodol (mae rhai yng Nghymru);
 - **categori** (ar sail risg diogelwch) – does dim carchardai ar gyfer carcharorion categori A (risg uchel) yng Nghymru;
 - **capasiti** – y nifer o leoedd gwag mewn carchardai;
 - **hyd dedfryd** – caiff carcharorion sydd â llai o'u dedfryd ar ôl eu lleoli'n nes at adref;
 - **pellter o gartref y carcharor**.
- 3.16 Mae cymal 2.3 o gynllun iaith Gymraeg HMPPS yn datgan y bydd yn ceisio cael lle i garcharorion o Gymru yng Nghymru os yw hynny'n ymarferol:
- Er nad oes digon o le yng ngharchardai Cymru ar gyfer yr holl droseddwyd sy'n cael eu dedfrydu i garchar gan lys yng Nghymru, byddwn yn ceisio cael lle i garcharorion o Gymru yng Nghymru os yw hynny'n ymarferol.
- 3.17 Cadarnhaodd swyddogion HMPPS fod lleoli carcharorion o Gymru yng Nghymru os yn bosib yn bolisi swyddogol a'i fod yn rhan o'r algorithm a ddefnyddir, ond ni chesglir data cyson am weithrediad y nod hwn.
-

- 3.18 Nid yw'r gallu na'r dewis i siarad Cymraeg yn cael ei ystyried yn benodol wrth benderfynu ym mha garchar i leoli carcharorion.
- 3.19 Mae cynllun iaith HMPPS yn nodi y bydd cyfle i garcharorion sy'n siarad Cymraeg "wneud cais i drosglwyddo. Fodd bynnag, seilir trosglwyddiadau ar lleoedd gwag sydd ar gael mewn carchardai a ni fydd o reidrwydd yn bosibl. Trafodir gyda'r carcharor unrhyw effaith y bydd newid lleoliad yn ei gael ar fynediad at y Gymraeg." Nid yw'r Comisiynydd wedi gweld data a fyddai'n awgrymu a yw hyn yn digwydd yn aml.

Swyddogaeth 'carchar lleol'

- 3.20 Mae nifer cyfyngedig o garchardai'n gweithredu fel 'carchar lleol' ar gyfer llysoedd mewn ardal benodol. Golyga hyn eu bod yn derbyn carcharorion sydd ar 'remand' (yn disgwyl am dreial) a charcharorion sydd newydd dderbyn euogfarn neu ddedfryd yn y llysoedd hynny.
- 3.21 Y carchardai lleol ar gyfer de Cymru yw CEM Abertawe, CEM Parc a CEM Caerdydd. Aiff pob carcharor o lysoedd yn ne Cymru i'r carchardai hyn i ddechrau. Yn achos gogledd Cymru, CEM Altcourse (Lerpwl) yw'r carchar lleol ar hyn o bryd.
- 3.22 Mae bwriad i drosglwyddo'r swyddogaeth carchar lleol ar gyfer llysoedd yng ngogledd Cymru i CEM Berwyn yn ystod y misoedd nesaf, wrth i'r rhaglen 'ramp-up' ar gyfer agor y carchar ddatblygu.

Dychwelyd i'r gymuned

- 3.23 Mewn gohebiaeth at y Comisiynydd, pwysleisiodd HMPPS agosrwydd at adref wrth ddynesu at ddiwedd dedfryd:

Closeness to home is particularly important for those on short sentences or nearing release, where they need to (re)build family ties, secure housing and health services and look for work. These

prisoners are prioritised for local (to home) prisons. To support this, HMPPS will ensure that most offenders are returned to their home Community Rehabilitation Company or probation area for release, where they are managed by either a contracted-out or state provider or the National Probation Service (depending on level of risk). This will provide continuity of service for offenders in custody and the community. In line with this, if a prisoner needs to resettlement in Wales we will ensure they are allocated to a Welsh prison at the appropriate point in their sentence.

- 3.24 Yn 2014, cyflwynodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ‘garchardai adsefydlu’, gyda’r nod fod carcharorion yn cael eu dal mewn carchardai yn agos at eu cymuned am o leiaf 12 wythnos cyn cael eu rhyddhau. Y carchar adsefydlu agosaf at ogledd Cymru, ar y pryd, oedd CEM Stoke Heath. Mewn adroddiad ar archwiliad (Ebrill 2015) nododd Prif Arolygydd Carchardai EM:

Stoke Heath’s new role as a resettlement prison for Welsh prisoners had led to an increase in the number of prisoners arriving from Wales who now made up approximately 60% of the population.


- 3.25 Nododd yr Arolygydd hefyd:

At the time of the inspection there was no Welsh language provision. We were told that, despite the number of prisoners from Wales there was no one at the prison who spoke Welsh as a first language. It was, nevertheless likely that Welsh speaking prisoners would be held at the prison and there was a need to ensure that their needs could be accommodated.

- 3.26 Mae CEM Berwyn bellach yn garchar adsefydlu ar gyfer gogledd Cymru.


Ym mha garchardai mae carcharorion o Gymru wedi eu lleoli?

Dadansoddiad y
Comisiynydd o ddata
Canolfan Llywodraethiant
Cymru, Mehefin 2018




% yn gallu siarad Cymraeg


Cyfrifiad 2011, fesul ardal awdurdod lleol



Nifer carcharorion o Gymru



Math o garchar



Lleoli carcharorion – canlyniadau

Mae'r Comisiynydd wedi gwneud dadansoddiad pellach o ddata Canolfan Llywodraethiant Cymru ynghylch lleoliad carcharorion o Gymru. Siroedd gogledd Cymru yw'r 6 sir sydd â'r canrannau isaf o'u carcharorion yn y carchar yng Nghymru. Mae 4 o'r 6 sir hyn ymysg y siroedd hynny sydd â mwy na 20% o'r trigolion yn siarad Cymraeg. Mae'r canrannau isel ar gyfer siroedd y gogledd yn rhannol oherwydd mai CEM Altcourse yw'r 'carchar lleol' ar gyfer llysoedd gogledd Cymru. Mae bwriad i symud y swyddogaeth hon i CEM Berwyn.

Cyfweliadau'r Comisiynydd

- 3.27 Yng nghyfweliadau'r Comisiynydd â charcharorion a chyn-garcharorion roedd 8 â phrofiad o garchardai yng Nghymru'n unig, 4 â phrofiad o garchardai yn Lloegr yn unig, a 5 â phrofiad o garchardai yng Nghymru a Lloegr.

Data Canolfan Llywodraethiant Cymru

- 3.28 Does dim data penodol dibynadwy ynghylch lleoliad siaradwyr Cymraeg drwy'r ystâd carchardai, ond mae peth data ar gael ynghylch lleoliad carcharorion o Gymru. Mae'r data mwyaf cyfredol a dibynadwy ar gael yn sgil gwaith ymchwil Dr Rob Jones, a gyhoeddir fel rhan o brosiect ar gyfiawnder gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru. Prif ffynhonnell yr ymchwil yw ceisiadau rhyddid gwybodaeth.
- 3.29 Mae [Imprisonment in Wales: A Factfile](#) (Mehefin 2018) yn crynhoi'r prif ffeithiau ynghylch poblogaeth a pherfformiad carchardai yng Nghymru. Mae'r prif ganfyddiadau'n cynnwys ystadegau sy'n dangos bod carcharorion o Gymru wedi eu gwasgaru'n eang:
- mae 4,704 o bobl o Gymru yn y carchar (ar sail cyfeiriad cartref cyn mynd i'r ddalfa);
 - mae 37% o garcharorion o Gymru yn cael eu dal mewn carchardai yn Lloegr;

- o mae carcharorion o Gymru mewn 104 o'r 116 carchar yn Lloegr (91% o'r holl garchardai).

3.30 Mae dogfen ddilynol, [Imprisonment in Wales: A Breakdown by Local Authority](#) (Mehefin 2018), yn rhoi ffigurau manwl fesul ardal awdurdod lleol ynghylch:

- o nifer trigolion y sir sydd yn y carchar;
- o ym mha garchardai y mae'r carcharorion hynny.

3.31 Mae'r Comisiynydd wedi gwneud dadansoddiad pellach o'r ffigurau, gan anelu i sefydlu a oes perthynas rhwng canran siaradwyr Cymraeg mewn sir, a'r ganran o'r carcharorion o'r sir sydd yn y carchar yng Nghymru. (Nid oes ffigwr union ar gael yn achos carchardai sydd â mwy nag 1, a hyd at 5, carcharor o sir, ac felly amcangyfrif yn unig sy'n bosib.)

3.32 O'r 6 sir sydd â mwy na 20% o'r trigolion yn siarad Cymraeg, mae 4 ohonynt ymysg y 6 sir sydd â'r canrannau isaf o'u carcharorion yn y carchar yng Nghymru:

Sir	Canran siaradwyr Cymraeg	Canran trigolion yn y carchar yng Nghymru (amcangyfrif gorau)
Gwynedd	65%	22%
Ynys Môn	57%	28%
Ceredigion	47%	70%
Sir Gaerfyrddin	44%	59%
Conwy	27%	30%
Sir Ddinbych	25%	28%

- 3.33 Y rheswm am hyn yw gwahaniaeth rhwng de a gogledd Cymru. Gwelir o'r tabl uchod fod y canrannau ar gyfer carcharorion o Geredigion a Sir Gaerfyrddin sydd mewn carchar yng Nghymru'n sylweddol uwch nag ar gyfer y siroedd eraill sydd â chanrannau uwch o siaradwyr Cymraeg. Mae'r canrannau ar gyfer Ceredigion a Sir Gaerfyrddin yn debycach i'r rheiny ar gyfer siroedd eraill y de, sy'n amrywio rhwng 65% ac 83%. Y siroedd sydd â'r canrannau isaf o'u carcharorion mewn carchardai yng Nghymru yw Sir y Fflint (16%) a Wrecsam (22%).
- 3.34 Wrth ystyried y niferoedd o garcharorion o siroedd y gogledd sydd yn CEM Altcourse (e.e. 40% ar gyfer Gwynedd, 43% ar gyfer Ynys Môn), daw'n amlwg y bydd symud swyddogaethau 'carchar lleol' ar gyfer llysoedd gogledd Cymru i CEM Berwyn maes o law yn cael effaith sylweddol ar y ganran o garcharorion o siroedd gogledd Cymru sy'n cael eu cadw yng Nghymru. Wedi dweud hynny, hyd yn oed pe bai'r holl garcharorion o Gymru sydd yn CEM Altcourse ar hyn o bryd yn mynd i CEM Berwyn, byddai'r canrannau'n dal yn is nag ar gyfer y rhan fwyaf o siroedd yn ne Cymru.

Lleoli menywod

Nid oes carchar i fenywod yng Nghymru. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi strategaeth ynghylch troseddwy'r benywaidd, sy'n golygu na fydd rhagor o garchardai'n cael eu hadeiladu ar gyfer menywod. Y bwriad yw buddsoddi mewn darpariaeth gymunedol a chanolfannau menywod preswyl, a cheisio lleihau nifer y menywod ar ddedfrydau byr.

Argymhelliad 2

Dylai HMPPS sicrhau bod anghenion menywod sy'n siarad Cymraeg yn cael eu hystyried yn llawn fel rhan o unrhyw gynlluniau i ddatblygu'r ddarpariaeth i droseddwy'r benywaidd dan strategaeth y Llywodraeth.

- 3.35 Nid oes carchar ar gyfer menywod yng Nghymru, felly anfonir holl garcharorion benywaidd Cymru i garchardai yn Lloegr. Caiff menywod o Gymru eu cadw ym mhob un o'r 12 carchar menywod yn Lloegr.
- 3.36 Mae hyn wedi bod yn destun beirniadaeth gyson ers blynyddoedd. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd carchar i fenywod yn cael ei adeiladu yng Nghymru, oherwydd aifeddwl cyffredinol ynghylch sut i ddelio â throseddwy'r benywaidd.
- 3.37 Mae cytundeb cyffredinol fod angen ymdrin yn wahanol â charcharorion benywaidd. Mae'r rhesymau dros hyn yn cael eu hesbonio yn [Strategaeth Troseddwy'r Benywaidd](#) y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Gorffennaf 2018):
- niferoedd – “tua 5% o boblogaeth y carchardai a 15% o droseddwy'r yn y gymuned” sy'n ferched;
 - rhesymau dros droseddu – “mae nifer mawr ohonynt yn profi ffyrdd caotig o fyw sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau, problemau iechyd meddwl, digartrefedd, ac ymddygiad troseddol – mae'r rhain yn ganlyniad yn aml i oes o gam-drin a thrawma”;
 - math o droseddu – “mae troseddwy'r benywaidd yn cyflawni troseddau llai difrifol nag y mae troseddwy'r gwrywaidd ac yn aml yn peri risg isel neu ganolog o achosi niwed difrifol i'r cyhoedd”;

- canlyniadau carcharu – “gall canlyniadau i fenywod yn y ddalfa fod yn waeth na’r rheini i ddynion: er enghraifft, mae’r gyfradd hunan-niweidio bron pum gwaith yn uwch yng ngharchardai menywod”. Nodir hefyd bod carcharu merched yn aml yn gallu cael effaith niweidiol ar blant.

3.38 Yn rhannol oherwydd y niferoedd isel o garcharorion benywaidd, mae llai o garchardai menywod yn y wlad. Effaith hyn yw bod merched yn cael eu lleoli ymhellach, ar gyfartaledd, o’u cartref. Nododd [adroddiad yr Arglwydd Bradley](#) (2009) ar iechyd meddwl ac anawsterau dysgu a’r system carchardai:

Women tend to be located further from their homes than male prisoners, to the detriment of maintaining family ties, receiving visits and resettlement back into the community.

3.39 O’r herwydd, mae’r Strategaeth Troseddwyr Benywaidd yn nodi penderfyniad i beidio â datblygu carchardai newydd ar gyfer merched. Yn hytrach, bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn:

- buddsoddi mewn darpariaeth gymunedol i ferched, er enghraifft gorchmynion cymunedol, darpariaeth ar gyfer menywod sydd wedi dioddef cam-drin domestig, a “chanllawiau i’r heddlu ar weithio gyda merched agored i niwed”;
- “datblygu cynllun peilot ar gyfer ‘canolfannau menywod preswyl’ ar o leiaf bum safle ar draws Cymru a Lloegr”, gyda HMPPS yn edrych i mewn i’r posibilrwydd i o leiaf un o’r rhain fod yng Nghymru;
- “ymrwymo i leihau nifer y menywod ar ddedfrydau byr o garchar”, er enghraifft drwy “ddargyfeirio menywod yn llwyddiannus oddi wrth droseddu fel y gellir cau un neu ragor o garchardai”.

3.40 Mewn gohebiaeth at y Comisiynydd, nododd HMPPS fod gweithrediad y strategaeth yng Nghymru'n cael ei gefnogi gan waith ar y cyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru:

In Wales this is supported by work jointly commissioned by MoJ and Welsh Government ministers to set out a blueprint for services focussing on delivering services for women in a way that builds on the existing relationships and reflects the unique delivery landscape in Wales.

A key theme in both the strategy and the blueprint is the need for a joined-up approach to addressing the often complex needs of female offenders, such as those provided by the multi-agency, Whole System Approach models, including the Women's Pathfinder in Wales.

4. Adnabod anghenion iaith carcharorion

Pwysigrwydd adnabod anghenion iaith

Mae data ynghylch anghenion iaith carcharorion yn hanfodol er mwyn cynllunio gwasanaethau – er enghraifft penderfynu lle i leoli carcharorion, datblygu darpariaeth Gymraeg yn y carchardai cywir, dyrannu staff, a chynnig gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol.

- 4.1 Mae data ynghylch anghenion iaith carcharorion yn hanfodol er mwyn cynllunio gwasanaethau. Tanlinellir hyn pan fo cynllun iaith Gymraeg HMPPS yn nodi (mewn perthynas â charcharorion yn Lloegr):

Nid oes gennym y data ar hyn o bryd i bennu lle mae'r angen mwyaf, felly bydd angen i ni ymrwymo i ddarparu gwasanaethau cyfartal i bob carcharor sydd wedi dewis Cymraeg fel eu hiaith, waeth lle byddant wedi eu lleoli yn yr ystâd carchar. [...]

Pan fydd digon o ddata ar gael i ni, byddwn yn gallu pennu ble fydd y mwyafrif o'r siaradwyr Cymraeg a byddwn yn cynllunio yn unol â hynny.

- 4.2 Byddai casglu data cywir a manwl ynghylch anghenion iaith carcharorion yn galluogi:
- lleoli carcharorion yn y carchardai sydd fwyaf addas ar gyfer eu hanghenion, a blaenoriaethu datblygiadau yn y carchardai lle byddent yn cael yr effaith fwyaf;
 - sicrhau bod staff carchar sy'n siarad Cymraeg yn cael eu gwneud yn gyfrifol am garcharorion sy'n siarad Cymraeg. Er enghraifft, yn CEM Berwyn mae swyddogion lleihau aildroseddu'n uniongyrchol gyfrifol am gyswllt un-i-un â grŵp o ryw hanner cant o garcharorion;
 - targedu gwasanaethau Cymraeg yn fwy effeithiol i'r unigolion sydd eu hangen, a chysylltu siaradwyr Cymraeg â chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y carchar.
- 4.3 Noda cynllun iaith Gymraeg HMPPS y bydd yn "darparu gwasanaethau Cymraeg i garcharorion yn Lloegr sydd wedi nodi eu dewis iaith fel Cymraeg". Mewn geiriau eraill, mae darparu gwasanaethau Cymraeg i garcharorion yn Lloegr yn ddibynnol ar gofnodi eu dewis iaith yn effeithiol.
- 4.4 Un o ganfyddiadau [adolygiad](#) David Lammy AS o'r driniaeth a gaiff unigolion Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y system cyfiawnder troseddol oedd bod diffygion o ran casglu a dadansoddi data am garcharorion BAME ar wahanol gamau yn y broses. Adroddodd swyddogion HMPPS mai argymhellion adroddiad Lammy yw un o'r prif yrwyr ar gyfer eu gwaith ar hyn o bryd, a bod nifer o argymhellion Lammy'n rhai a fydd yn llesol i siaradwyr Cymraeg yn ogystal ag unigolion BAME. Er enghraifft, mae adroddiad Lammy'n argymhell cytuno ar un dull ar draws y system cyfiawnder troseddol o gofnodi data am ethnigrwydd, ac mae gwaith ar fynd i sicrhau hyn.

Y data a gesglir

Nid yw'r data y mae HMPPS wedi ymrwymo i'w gasglu cystal ag y gallai fod – gallai wneud mwy i ganfod dewis iaith carcharorion mewn gwahanol amgylchiadau, a dylai gasglu data ynghylch y gallu i siarad Cymraeg yn ogystal â dewis iaith.

Argymhelliad 3

Dylai HMPPS addasu'r data y mae'n ymrwymo i'w gasglu ynghylch anghenion iaith carcharorion, er mwyn adnabod dewis iaith mewn gwahanol sefyllfaoedd, ac er mwyn adnabod gallu i siarad Cymraeg yn ogystal â dewis iaith.

4.5 Noda cynllun iaith Gymraeg HMPPS:

[Mae] cyfarwyddyd gwasanaeth carchardai (PSI) 74/2011 ar gyfer sesiynau cynefino carcharorion yn ei gwneud yn ofynnol i bob carchar yng Nghymru a Lloegr ddarparu proses gynefino a fydd yn sicrhau bod carcharorion yn gallu deall rhaglen gynefino'r carchar. Mae hyn yn cynnwys cofnodi dewis iaith carcharor ar yr adeg y mae'n cael ei d/derbyn i'r carchar, canfod a yw'n deall Saesneg ac i ba raddau y mae'n gallu cyfathrebu yn yr iaith honno.

4.6 Gofynnir am ddewis iaith ar gyfer cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig. Mae'n gadarnhaol fod HMPPS yn gwahaniaethu rhwng y ddau gyfrwng hyn, ond gellid gwneud mwy i gasglu gwybodaeth fanylach am wahanol sefyllfaoedd, gan y bydd anghenion a dewisiadau iaith unigolion yn amrywio mewn gwahanol amgylchiadau.

4.7 Ni chesglir data ynghylch pa ieithoedd y mae pobl yn gallu eu siarad. Gall pobl fod yn gyndyn i nodi dewis iaith pan fyddant yn ofni bod hynny'n mynd i wneud iddynt ymddangos fel niwsans neu rywun sy'n gwneud gofynion afresymol. Gall pobl, mewn cyd-destun carchar, ddymuno cydymffurfio a pheidio â thynnu sylw atynt eu hunain. Ond nid yw hynny'n golygu na fyddent ar eu hennill o gael darpariaeth Gymraeg.

Sut caiff y data ei gasglu a'i ddefnyddio

Nid yw'r trefniadau casglu data ynghylch anghenion iaith yn ddigon cadarn. Ar sail y dystiolaeth a welodd, ni all y Comisiynydd fod yn sicr fod y data'n cael ei gasglu'n gyson ac yn gywir. Awgryma'r dystiolaeth hefyd fod anawsterau o ran y data sydd ar gael i garchardai er mwyn iddynt gynllunio'u gwasanaethau.

Argymhelliad 4

Dylai HMPPS gryfhau ei drefniadau er mwyn sicrhau bod data ynghylch y Gymraeg yn cael ei gasglu ar gyfer pob carcharor yn ddi-ffael, a bod modd i bob carchar gael mynediad at ddata cywir er mwyn cynllunio'i wasanaethau.

- 4.8 Yn ystod yr arolwg derbyniwyd gwybodaeth amrywiol ynghylch effeithiolrwydd a chysondeb trefniadau carchardai ar gyfer casglu data dewis iaith carcharorion. Ar sail y dystiolaeth hon, ni all y Comisiynydd fod yn sicr fod y trefniadau'n digwydd fel y dylent.
- 4.9 Nododd swyddogion HMPPS, a swyddogion y carchardai yng Nghymru yr ymwelwyd â hwy, fod y broses o dderbyn carcharorion yn cynnwys cwestiynau ynghylch dewis iaith, a bod y wybodaeth yn cael ei chofnodi ar system rheoli gwybodaeth ynghylch troseddwyd (NOMIS). Esboniwyd bod:
- holiadur cychwynnol safonol, sy'n cael ei ddarparu gan HMPPS yn ganolog, yn gofyn am ddewis iaith;
 - cyfweiliad dilynol ynghylch anghenion yn gofyn am ddewis iaith eto mewn ffordd ychydig yn fwy trylwyr.
- 4.10 Nododd HMPPS hefyd fod hygyrchedd ieithyddol wedi ei gynnwys mewn rhestr wirio o ofynion anwytho noson gyntaf o fewn y cyfarwyddyd carchar Dyddiau Cynnar Dan Glo.
- 4.11 Er hynny, pan ofynnwyd i gael gweld yr holiadur cychwynnol yn un o'r carchardai, gwelwyd nad oedd cwestiwn am ddewis iaith arno.

- 4.12 Mewn ymweliad â charchar yn Lloegr sy'n derbyn nifer uchel o garcharorion o Gymru, nododd y swyddogion nad oedden nhw'n casglu unrhyw ddata am garcharorion sy'n siarad Cymraeg. Doedd ganddyn nhw ddim ymwybyddiaeth o fodolaeth yr ymrwymadau yng nghynllun iaith HMPPS, ac esboniwyd mai eu hunig arfer o ran iaith wrth dderbyn carcharorion oedd darparu gwasanaethau cyfieithu i'r carcharorion hynny sydd ddim yn gallu siarad Saesneg.
- 4.13 O'r carcharorion a gyfwelwyd gan y Comisiynydd, adroddodd 5 ohonynt eu bod wedi cael profiad o awdurdodau carchardai yn gofyn iddyn nhw pa iaith yr hoffent ei defnyddio (28%). Adroddodd 12 o'r cyfweleion nad oeddent erioed wedi cael y cwestiwn hwnnw (67%).
- 4.14 Dywedodd un cyfwelai: "Dim ond y nyrs sydd byth wedi gofyn i mi pa iaith sydd well gen i ddefnyddio. Cwrddais â hi ar yr ail noson yma a gofynnodd oes oeddwn am siarad Cymraeg. Wnes i bron crio!" Nododd y person hwn fod cael y cwestiwn ynghylch dewis iaith wedi gwneud iddynt deimlo'n nes at adref ac "at ease".
- 4.15 Dywedodd cyfwelai arall: "Does neb wedi gofyn i mi pa iaith oeddwn am ddefnyddio ond ges i gynnig darpariaeth Cymraeg gan wasanaethau eraill – Offender Management ym Mhrescoed, Bwrdd Parôl a'r Gwasanaeth Prawf i gyd yn rhoi cynnig neu ddewis i mi dderbyn y gwasanaeth yn y Gymraeg."
- 4.16 Nododd swyddogion carchardai yng Nghymru nad oes modd cynhyrchu adroddiad o NOMIS sy'n dangos yr holl siaradwyr Cymraeg yn y carchar. Roedd tri phrif reswm am hyn:
- data'n cael ei gofnodi'n anghywir ar NOMIS;
 - data heb ei gasglu;
 - trafferthion technegol o ran yr hyn y gall NOMIS ei wneud.

- 4.17 Nododd swyddogion HMPPS yn ganolog y dylai carchardai unigol allu gweld data dewis iaith ar gyfer eu carchar hwy a'i gyrchu o'r system. Dywedodd rhai swyddogion mewn carchardai nad oedd ganddynt fynediad at y wybodaeth hon, a chadarnhaodd HMPPS nad oes gan bob aelod staff fynediad at NOMIS.
- 4.18 Nododd swyddogion bryder hefyd am y ffaith nad yw'r data am ddewis iaith yn mynd i'r afael â'r posibilrwydd ei fod yn amrywio mewn gwahanol sefyllfaoedd, a phryder fod carcharorion yn peidio â datgan dewis iaith er mwyn peidio â bod yn niwsans.
- 4.19 O'r herwydd, roedd gan swyddogion carchardai yng Nghymru drefniadau ad hoc, annibynnol ar gyfer canfod pa garcharorion sy'n siarad Cymraeg – trefniadau annibynadwy, sy'n gofyn am gryn ymroddiad ac ewyllys da gan y swyddogion eu hunain.
- 4.20 Er enghraifft, adroddodd HMPPS i'r Comisiynydd yn Ionawr 2018 fod 2 garcharor yn CEM Berwyn wedi dewis Cymraeg fel iaith lafar ac ysgrifenedig dewisol. Yn ystod ymweliad â'r carchar gwelwyd bod swyddogion yn casglu data ar eu liwt eu hunain ynghylch pwy sy'n siarad Cymraeg er mwyn gallu cynnig cefnogaeth benodol iddynt. Roedd y broses ar gyfer gwneud hyn yn dibynnu ar gydweithredu â charcharorion i gasglu gwybodaeth am eu cyd-garcharorion. Roedd enwau tua 50 o garcharorion ar restr y swyddog yn ystod yr ymweliad, gan amlygu gwahaniaeth sylweddol rhwng y data swyddogol a'r sefyllfa go iawn.
- 4.21 Nododd swyddogion y carchar yn Lloegr fod ymdrech i osod siaradwyr Cymraeg gyda'u gilydd mewn celloedd yno, ond nad oes ffordd systematig ganddynt o wneud hynny a'i fod yn digwydd ar sail ad hoc.
- 4.22 Nododd rhai o'r carcharorion a gyfwelwyd fod eu dewis iaith wedi ei gofnodi ond nad yw hynny wedi effeithio ar y ddarpariaeth. Dywedodd un cyfwelai: "Gofynnodd rhywun i mi amser yn ôl pa iaith sydd well gen i ddefnyddio – dwedais Cymraeg ond popeth dal yn Saesneg."

4.23 Nododd swyddogion HMPPS:

- y caiff data ynghylch y Gymraeg, a threfniadau casglu, eu hadolygu fel rhan o'r cynlluniau ehangach i adolygu data cydraddoldeb;
- y byddai unrhyw ddata'n seiliedig ar garcharorion yn hunan-ddatgan ar ffurflen, ac nid oedd y swyddogion yn hyderus y byddai hynny'n digwydd;
- nad yw newid NOMIS yn cael ei ddiystyru, ond y gall fod yn broses anodd a chostus. Byddai'n rhaid i gynigion a chostau cysylltiedig gael eu cyflwyno a'u hystyried yn fewnol. Nid yw hyn wedi digwydd eto mewn perthynas â'r newidiadau sy'n cael eu hystyried i ddata ynghylch cydraddoldeb a'r Gymraeg.

4.24 Mewn gohebiaeth yn dilyn cyfweiliad, nododd swyddogion HMPPS:

We are aware that Welsh language preference is not being consistently gleaned at prison reception, particularly in England, and that this only picks up new or transferring prisoners, not those who have been in custody for some time. Our new Scheme will make clear what the data requirements are for staff and ensure that we are able to determine whether or not this is happening in prisons. We recognise that our staff need better instruction and guidance on how to deliver commitments we make centrally and this will be addressed in the new Scheme.

Dewis iaith carcharorion a gyfwelwyd

- 4.25 O'r 18 cyfwelai, roedd 15 o'r yn eu cyfrif eu hunain yn rhugl (83%) gyda 3 pellach yn ystyried eu hunain yn rhannol rhugl (17%).
- 4.26 Roedd yn well gan 10 o'r cyfweleion ddefnyddio'r Gymraeg pan yn deilo â chyrff cyhoeddus tu allan i'r carchar (56%), gyda'r 8 arall yn ffafrio defnyddio Saesneg (44%).
- 4.27 Roedd y rhaniad ar gyfer dewis iaith wrth ddelio ag awdurdodau o fewn y carchar yn debyg, gyda 10 yn ffafrio Cymraeg (56%) a 7 yn ffafrio Saesneg (39%). Datganodd un o'r carcharorion ei bod yn well ganddo ddewis Cymraeg yng ngharchardai Cymru, a Saesneg yng ngharchardai Lloegr.
- 4.28 Roedd y 3 carcharor a ddywedodd nad oeddent yn rhugl yn y Gymraeg wedi dweud eu bod yn ffafrio defnyddio Saesneg y tu mewn a'r tu allan i'r carchar.
- 4.29 Soniodd 2 garcharor eu bod yn dewis Cymraeg wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus y tu allan i'r carchar, ond ei bod yn well ganddynt ddefnyddio Saesneg o fewn y carchar.

5. Profiadau siaradwyr Cymraeg yn y carchar

Rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg

Mae'r Comisiynydd wedi clywed am nifer o enghreifftiau o staff carchardai'n dweud wrth garcharorion am beidio â defnyddio'r Gymraeg, naill ai â'i gilydd neu â phobl o'r tu allan i'r carchar, mewn cyd-destunau lle na ellid cyfiawnhau'r ymyrraeth. Ar y llaw arall, roedd agwedd y rheolwyr o fewn y system a gyfwelwyd yn gyson oddefgar neu gadarnhaol, a sefydlwyd grŵp anffurfiol yn CEM Berwyn sy'n rhoi cyfleoedd i garcharorion ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Awgryma hyn fod yr ymyrraeth yn ganlyniad agweddau negyddol neu ddiffyg gwybodaeth ar ran swyddogion carchar.

Argymhelliad 5

Dylai HMPPS gymryd camau i'w gwneud yn gwbl glir fod modd i garcharorion gyfathrebu yn Gymraeg â'i gilydd ac â chysylltiadau allanol, gan nodi'n fanwl dan ba amgylchiadau na chaiff hynny ei ganiatáu.

Argymhelliad 6

Dylai HMPPS ddatblygu cyfleoedd pellach i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol yn CEM Berwyn ac mewn carchardai eraill.

- 5.1 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn creu'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg. Gall y Comisiynydd ddyfarnu a yw rhywun wedi ymyrryd â rhyddid dau berson arall i ddefnyddio'r Gymraeg â'i gilydd, er enghraifft drwy nodi na ddylen nhw ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd neu achosi anfantais iddynt am wneud hynny.

- 5.2 Mae ymrwymïadau yng nghynllun iaith Gymraeg HMPPS yn cynnwys:
- caniatáu i garcharorion ysgrifennu llythyrau yn eu dewis iaith (gyda rhai eithriadau ar gyfer sefyllfaoedd risg uchel);
 - caniatáu i garcharorion siarad Cymraeg os ydynt yn dewis gwneud hynny (gyda rhai eithriadau ar gyfer sefyllfaoedd risg uchel);
 - diwygio'i bolisi ymweliadau er mwyn sicrhau ei bod yn glir bod yr hawl i gynnal ymweliadau yn Gymraeg yn bodoli.
- 5.3 Mewn rhai amgylchiadau, gall y Comisiynydd nodi bod modd cyfiawnhau ymyrraeth. Gall rhai sefyllfaoedd eithriadol o fewn carchardai fod yn rhai lle byddai cyfiawnhad dros gyfyngu ar y rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg.

Defnyddio'r Gymraeg gyda chyd-garcharorion

- 5.4 Adroddodd hanner y cyfweleion eu bod wedi cael profiad o staff carchar yn dweud wrthynt nad oes hawl ganddynt i ddefnyddio'r Gymraeg, a bod angen iddynt newid i'r Saesneg. Awgrymodd sawl cyfwelai hefyd fod siarad Cymraeg yn gallu arwain at ganlyniadau negyddol gan staff rhai carchardai.
- 5.5 Adroddodd un cyfwelai iddo golli breintiau (er enghraifft amser y tu allan i'r gell) o ganlyniad i siarad Cymraeg yn gymdeithasol â charcharorion eraill.
- 5.6 Honnodd cyfwelai arall fod nifer o garcharorion yn cuddio'r ffaith eu bod nhw'n siaradwyr Cymraeg oddi wrth staff y carchar.
- 5.7 Dywedodd cyfwelai arall fod agweddau staff yng ngharchardai Lloegr tuag at y Gymraeg yn salach na'r rhai yng Nghymru a bod ei brofiadau negatif i gyd wedi digwydd yng ngharchardai Lloegr.

- 5.8 Dywedodd cyfwelai arall ei fod yn “dewis peidio â siarad Cymraeg â charcharorion eraill – ddim am i bobl wybod fy mod i’n siarad Cymraeg, ddim am fod yn darged; jyst eisiau ‘blend in’ – ddim am sefyll allan mewn unrhyw ffordd. Dwi’n ofni bydd swyddogion yn fy nhrin yn wahanol neu’n gwneud bywyd yn anodd i mi os oeddwn am ddefnyddio’r Gymraeg.”
- 5.9 Honnodd un cyfwelai fod staff yn ei hatal rhag siarad Cymraeg yn gymdeithasol yn rheolaidd.
- 5.10 Adroddodd 2 gyfwelai pellach eu bod yn ymwybodol o garcharorion eraill sydd wedi cael y profiad o staff yn eu hatal rhag defnyddio’r Gymraeg, ond heb brofi hynny eu hunain.
- 5.11 Adroddodd un cyfwelai bod staff yn ei ffeindio’n anodd i ynganu ei henw ac yn rhoi llysenw iddi yn lle hynny.

Defnyddio’r Gymraeg gyda phobl o’r tu allan i’r carchar

- 5.12 Adroddodd 2 o’r cyfweleion bod staff wedi eu hatal rhag siarad Cymraeg ar y ffôn â’u teuluoedd.
- 5.13 Nododd un cyfwelai: “Ar un achlysur pan oedd Dad yn ymweld, wnaeth aelod o staff ofyn i ni beidio â siarad Cymraeg. Ro’n i yn teimlo’n grac oherwydd mae pobl eraill yn cael siarad eu hiaith nhw felly pam ddim y Gymraeg? Wnes i ddim cwyno; pwy fyddai’n gwrando? Does dim pwynt gwneud cwyn.”
- 5.14 Adroddodd cyfwelai arall: “Yn ystod un ymweliad gyda’r teulu, dyma aelod o staff yn dweud wrthym i siarad Saesneg. Cafodd hynny effaith mawr ar Mam achos roedd hi’n becho gan feddwl bydda i mewn trwbl ar ôl iddynt adael. Ar ôl y profiad yma, roedd Mam yn siarad Saesneg os oedd swyddogion o gwmpas gan ei bod hi’n becho am unrhyw *consequences* i fi.”

Ymateb swyddogion

- 5.15 Yn ystod cyfweiliadau â swyddogion charchardai a HMPPS, rhannwyd rhai o'r profiadau uchod. Cadarnhaodd pob swyddog a gyfwelwyd eu bod yn gefnogol i sicrhau rhyddid i garcharorion ddefnyddio'r iaith y dymunant ei defnyddio, heblaw am sefyllfaoedd penodol sy'n ymwneud â diogelwch.
- 5.16 Nododd pob un o'r swyddogion nad oedd polisi i atal pobl rhag defnyddio ieithoedd heblaw Saesneg, heblaw mewn achosion eithriadol. Nododd HMPPS, fodd bynnag, na ellid gwybod i sicrwydd nad oedd yr enghreifftiau uchod yn rhai lle byddai cyfiawnhad dros atal y carcharorion rhag siarad Cymraeg:
- There may have been security concerns and the officers were acting legitimately and in the interest of the safety and security of the establishment.
- 5.17 Yn ystod y cyfweiliad â swyddog yn CEM Berwyn, mynegwyd ymwybyddiaeth fod ymyrraeth yn digwydd mewn carchardai eraill, a bod sion amdano'n digwydd yn CEM Berwyn hefyd. Fodd bynnag, doedd dim byd wedi cael ei adrodd yn swyddogol am achosion penodol. Cadarnhawyd nad oedd ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael ei oddef yn CEM Berwyn ac y byddai proses effeithlon mewn lle i ddisgyblu swyddog petai'n dod i'r amlwg.
- 5.18 Cymerwyd camau cadarnhaol iawn yn CEM Berwyn er mwyn rhoi cyfleoedd i garcharorion siarad Cymraeg yn gymdeithasol. Sefydlwyd grŵp anffurfiol sy'n cyfarfod i gymdeithasu yn Gymraeg, er enghraifft i wylio ffilmiau Cymraeg neu gael ymweliadau gan siaradwyr o Gymru. Mae gwerth hyn yn mynd y tu hwnt i'r cyfleoedd a grëir yn uniongyrchol – mae'n ei gwneud yn amlwg i garcharorion fod y carchar yn annog ac yn hybu defnydd o'r Gymraeg.

Gwasanaethau carchar

Ceir darlun cymysg o ran argaeledd gwasanaethau a chyfleoedd i siarad Cymraeg mewn carchardai. Gwelwyd, er enghraifft:

- ymwybyddiaeth fod gwasanaethau Cymraeg i fod ar gael, ond nad oeddent ar gael mewn gwirionedd;
- gwasanaethau'n cael eu hysbysebu ond ddim ar gael;
- gwasanaethau'n ddibynnol ar argaeledd staff;
- profiadau'n llawer gwell o fewn Cymru nag yn Lloegr;
- profiadau cyferbyniol o fewn yr un carchar.

O ran gwasanaethau penodol:

- roedd dros hanner y cyfweleion wedi methu â chael ffurflenni a deunyddiau tebyg yn Gymraeg;
- ymddengys fod y ddarpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, ar y cyfan, yn gyfyngedig i ddosbarthiadau i ddysgu neu wella Cymraeg;
- roedd llyfrau llyfrgell Cymraeg, a mynediad at S4C a Radio Cymru, ar gael yng Nghymru ond nid yn Lloegr;
- nid oes gwasanaeth caplan Cymraeg ar gael mewn dim un carchar, er ei fod yn rhan allweddol o'r gofal emosiynol a seicolegol a roddir i garcharorion.

Argymhelliad 7

Dylai HMPPS gryfhau ei drefniadau er mwyn monitro argaeledd ac ansawdd y gwasanaethau Cymraeg a gynigir o fewn carchardai, a rhoi cefnogaeth i garchardai gynnig y gwasanaethau hynny.

Cyffredinol

- 5.19 Noda cynllun iaith HMPPS y bydd rhyw lefel o wasanaethau Cymraeg ar gael ym mhob carchar yng Nghymru a Lloegr:

Bydd gwasanaeth sylfaenol yn y Gymraeg yn ofynnol ym mhob carchar yng Nghymru a Lloegr. Efallai bydd rhai carchardai yng Nghymru yn penderfynu gwneud mwy, neu yn gwneud yn barod.

- 5.20 Mae ymrwymadau penodol o ran gwasanaethau Cymraeg mewn carchardai'n cynnwys:

- sicrhau nad oes rhwystrau mewn ffurflenni penodol, rheoliadau, rheolau neu weithdrefnau, sy'n atal y defnydd o'r Gymraeg lle ddarperir y gwasanaethau i bobl yng Nghymru, neu i garcharorion sydd wedi dewis Cymraeg yn Lloegr;
- "ceisio datblygu sgiliau ieithyddol troseddwr sy'n siarad Cymraeg ac yn rhoi cyfle i siaradwyr Cymraeg gadw cysylltiadau â'u cefndir ieithyddol";
- sicrhau bod stoc o lyfrau llyfrgell a DVDs Cymraeg ar gael, ac y bydd mynediad at sianeli teledu a radio Cymraeg lle bo hynny'n bosib;
- darparu gwasanaethau dysgu a sgiliau yn Gymraeg yn ôl yr angen, gan ddibynnu ar y galw;
- sicrhau bod modd cyflwyno cwynion yn y Gymraeg, ond nodir efallai y bydd angen eu cyfieithu ac felly bydd yn cymryd mwy o amser i ddelio â hwy.

- 5.21 Nododd carcharorion eu bod yn ymwybodol o wasanaethau Cymraeg mewn egwyddor ond nad oedd digon o swyddogion ar gael i'w darparu go iawn, neu fod agweddau swyddogion yn eu hatal rhag manteisio ar y gwasanaethau hynny.

- 5.22 Nododd un cyfwelai: “Dwi’n deall fy mod i gallu delio gyda awdurdodau’r carchar yn y Gymraeg ond heb wneud hyn – dwi ddim yn gwybod sut bydd hyn yn gweithio gan nad oes unrhyw un yn siarad Cymraeg yma.”
- 5.23 Esboniodd cyfwelai arall: “Dwi’n gwybod bod perffaith hawl gen i ddefnyddio’r Gymraeg ond ddim yn gweld fy mywyd yn hawdd os oeddwn yn mynnu defnyddio’r Gymraeg; dwi ddim am gorddi’r swyddogion a’r awdurdodau.” Ychwanegodd: “Dwi ddim yn teimlo y gallaf ddelio ag awdurdodau’r carchar yn y Gymraeg – does dim digon ohonyn nhw’n deall Cymraeg.”
- 5.24 Dywedodd cyfwelai arall: “Dwi’n teimlo fel *outsider* wrth ddewis defnyddio’r Gymraeg; mae pobl yn edrych arnaf yn syn. Mae defnyddio’r Gymraeg yn gwneud chi’n wahanol. Dwi’n meddwl taw dyma’r rheswm pam nad yw pawb sy’n gallu siarad Cymraeg yn dewis defnyddio’r iaith. Angen i’r holl drafodaeth ynglŷn a’r iaith Gymraeg fod yn fwy agored o fewn y carchar.”

Ffurflenni

- 5.25 Dywedodd 11 o’r cyfweleion eu bod wedi profi sefyllfaoedd lle nad oedd ffurflenni ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg iddynt (61%).
- 5.26 Pan ofynnwyd i’r cyfweleion ym mha rannau o fywyd carcharor y mae fwyaf pwysig gallu defnyddio’r Gymraeg, roedd darpariaeth ffurflenni Cymraeg yn rhestrau 5 ohonynt (28%). Nododd 8 o’r cyfweleion fod ffurflenni Cymraeg ymysg y ffactorau a allai wneud y gwahaniaeth mwyaf i’w profiadau (44%).
- 5.27 Dywedodd un cyfwelai: “Doedd dim lot o bethau yn y Gymraeg fel ffurflenni neu wybodaeth pan gyrhaeddais yn 2013, ond dwi’n dechrau gweld newid nawr gyda rhai ffurflenni ar gael yn y Gymraeg.”
- 5.28 Nododd cyfwelai arall nad oedd ffurflenni cwyno ar gael yn y Gymraeg.

- 5.29 Nododd cyfwelai arall fod modd nodi Cymraeg fel dewis iaith ar system Custodial Management System (CMS) y carchar, sef y system sy'n cael ei defnyddio ar gyfer rhoi gwybodaeth i garcharorion ac sy'n galluogi carcharorion i archebu gwasanaethau a nwyddau. Er hynny, does dim gwybodaeth na ffurflenni ar gael yn Gymraeg ar y system ar hyn o bryd.
- 5.30 Adroddodd un cyfwelai ei bod wedi ysgrifennu at ei AS i gwyno am y ddarpariaeth Gymraeg yn y carchar, ac ers iddo ysgrifennu at y carchar ar ei rhan mae hi'n gweld gwahaniaeth gyda mwy o ffurflenni ac arwyddion yn ddwyieithog.

Addysg

- 5.31 Pan ofynnwyd i'r cyfweleion ym mha rannau o fywyd carcharor y mae fwyaf pwysig gallu defnyddio'r Gymraeg, roedd gwasanaethau addysg yn rhestrau 8 ohonynt (44%).
- 5.32 Mae'n ymddangos fod y ddarpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, ar y cyfan, yn gyfyngedig i ddosbarthiadau i ddysgu neu wella Cymraeg. Ar yr ymweliad â CEM Berwyn, gwelwyd bod siaradwyr Cymraeg rhugl yn mynychu gwersi Cymraeg ar gyfer dysgwyr. Rhannodd 6 o'r cyfweleion brofiadau o fynychu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg tra yn y carchar (33%). Roedd pob un o'r profiadau hyn mewn carchardai yng Nghymru (4 ohonynt yn CEM Parc). Dosbarthiadau i ddysgu neu wella Cymraeg oedd y gwersi y cyfeiriwyd atynt i gyd. Roedd 5 o'r cyfweleion yn gwirfoddoli naill ai i arwain gwersi Cymraeg neu gymryd rôl mentor yn y gwersi.
- 5.33 Dywedodd 3 o'r cyfweleion nad oeddent wedi cael cynnig dosbarthiadau addysgol drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y carchardai lle cafwyd y profiadau yma i gyd yng Nghymru (1 yn CEM Prescoed a 2 yn CEM Abertawe).

- 5.34 Ar y llaw arall, [nododd](#) Cyfarwyddwr CEM Parc wrth y Pwyllgor Materion Cymreig (Medi 2018) fod gan y carchar 10 athro sy'n siarad Cymraeg ac y gallent felly ddarparu ystod eang o addysg yn Gymraeg.
- 5.35 Adroddodd 2 o'r cyfweleion mai gwasanaethau addysg carchardai oedd y tro cyntaf iddyn nhw gael rhywun yn rhoi dewis iaith iddyn nhw yn y carchar.
- 5.36 Dylid pwysleisio bod pwysigrwydd addysg yn mynd y tu hwnt i wella sgiliau carcharorion. Gall gynnwys dosbarthiadau sy'n hanfodol er mwyn adsefydlu carcharorion, gan gynnwys rhaglenni triniaeth ar gyfer troseddwy'r rhyw, therapi ymddygiad ymwybyddol, rheoli dictter, a chefnogaeth adictedd.

Llyfrgelloedd

- 5.37 Adroddodd 7 o'r cyfweleion eu bod wedi defnyddio deunyddiau Cymraeg o lyfrgelloedd carchardai (39%). Roedd profiadau 6 o'r 7 mewn carchardai yng Nghymru.
- 5.38 Adroddodd 3 o'r cyfweleion eu bod wedi cael profiadau lle nad oedd deunyddiau Cymraeg ar gael yn llyfrgelloedd y carchardai (17%). Roedd y profiadau yma i gyd mewn carchardai y tu allan i Gymru (CEM Kirkham, CEM Eastwood Park, CEM Send, CEM Askham Grange, a CEM Styal).
- 5.39 Roedd un cyfwelai wedi cael archebu llyfrau Cymraeg drwy wasanaeth llyfrgell CEM Eastwood Park.
- 5.40 Dywedodd cyfwelai arall fod "cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg wrth weithio yn y llyfrgell yn Abertawe. Cyfle i siarad un-i-un gyda carcharorion oedd yn dod i'r llyfrgell – amgylchedd gwahanol i weddill y carchar."

- 5.41 Adroddodd cyfwelai yn HMP Parc fod “adran dda o lyfrau Cymraeg yn y llyfrgell – digon o ddewis a mwy yn cael eu hychwanegu”. Ond nododd cyfwelai arall yn HMP Parc nad oedd llawer o lyfrau Cymraeg yn y llyfrgell.
- 5.42 Roedd un cyfwelai wedi gweld baner yn y llyfrgell yn hysbysebu llyfrau Cymraeg, ond doedd dim ar gael yn y stoc.
- 5.43 Roedd cyfwelai arall o’r farn fod “darpariaeth y llyfrgelloedd ddim yn dda – dim llyfrau cyfoes ar gael, dim llyfrau roeddwn am ddarllen. Un o’r rhesymau roeddwn am ddarllen Cymraeg oedd i wella fy Nghymraeg ysgrifenedig – do’n i ddim yn teimlo bod y darpariaeth mewn dim un o’r carchardai [CEM Abertawe, CEM Parc, a CEM Prescoed] yn ddigon da.”

Teledu a radio

- 5.44 Adroddodd 4 o’r cyfweleion am brofiadau lle nad oedd S4C na Radio Cymru ar gael (22%). Roedd y carchardai a restrwyd i gyd yn Lloegr (CEM Kirkham, CEM Eastwood Park, CEM Send, CEM Askham Grange, CEM Styal a CEM Stoke Heath).
- 5.45 Adroddodd 7 o’r cyfweleion eu bod wedi cael mynediad at S4C (39%). Heblaw am CEM Altcourse roedd y carchardai hyn i gyd yng Nghymru (CEM Parc, CEM Berwyn, CEM Brynbuga, CEM Prescoed a CEM Abertawe).
- 5.46 Adroddodd cyfweleion fod S4C ar gael yn CEM Parc a CEM Prescoed, ond nad oedd Radio Cymru ar gael. Yn ôl un o’r cyfweleion roedd rhaid prynu radio digidol personol er mwyn gallu cael mynediad at Radio Cymru.
- 5.47 Teimlai rhai o’r cyfweleion fod cael yr opsiwn o S4C mewn carchar yn gallu achosi problemau. Esboniodd un fod llawer o garcharorion ddim eisiau S4C fel opsiwn gan ei fod yn golygu colli un o’r sianeli Saesneg (Channel 5 yn yr achos hwn).

- 5.48 Dywedodd un cyfwelai fod S4C ar gael ond ei fod yn “rhannu cell gyda rhywun sydd ddim yn siarad Cymraeg a dwi’n teimlo na alla i wyllo S4C achos mae hyn yn arwain at densiwn. Wedi sôn am hyn gyda’r swyddogion ond ymateb nhw yw ‘Get on with it’.”
- 5.49 Yn ôl cyfwelai arall doedd dim S4C yn y carchardai y danfonwyd hi iddyn nhw (CEM Eastwood Park, CEM Send a CEM Askham Grange). Dywedodd: “Mae S4C yn gysylltiad gydag adref, yn gadael i fi wybod beth sy’n digwydd yno. Gofynnais os oedd yn bosib cael S4C ond yr ymateb ges i oedd ‘You’re in England now’.”

Caplaniaeth

- 5.50 Pan ofynnwyd i’r cyfweleion ym mha rannau o fywyd carcharor y mae fwyaf pwysig gallu defnyddio’r Gymraeg, neu beth sy’n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau carcharorion Cymraeg, roedd gwasanaeth caplaniaeth Gymraeg yn rhestrau 2 ohonynt (11%).
- 5.51 Ar sawl ymweliad â charchardai, pwysleisiodd y swyddogion fod y gwasanaeth caplan yn rhan allweddol o’r gofal emosiynol a seicolegol a roddir i garcharorion.
- 5.52 Dwedodd un cyfwelai am ei amser yn CEM Kirkham: “Doedd dim gwasanaethau crefyddol yn y Gymraeg; dim Beibl Cymraeg chwaith. Trefnais i fy ngwraig ddod ag un i mewn yn ystod ymweliad a dwi wedi ei adael yno.”
- 5.53 Mewn [tystiolaeth](#) i ymchwiliad diweddaraf y Pwyllgor Materion Cymreig, nododd Eglwys Bresbyteraidd Cymru nad oes caplan Cymraeg yn CEM Berwyn, er i un fod ar gael yn CEM Altcourse am gyfnod.

5.54 Nododd yr Eglwys:

Gan fod gennym ymrwymiad i waith caplaniaeth, dymunwn hefyd bwysleisio fod gan garcharorion sy'n medru'r Gymraeg yr hawl i dderbyn gofal bugeiliol yn eu dewis iaith. Ar y foment nid yw'r ymrwymiad hwn yn cael ei ddiwallu'n addas, yn enwedig yng ngogledd Cymru.

Carem hefyd bwysleisio na all gwirfoddolwyr sy'n dod mewn i garchardai am amcanion penodol gymryd lle caplaniaid, oherwydd yn wahanol iddynt hwy ni fyddant wedi derbyn yr hyfforddiant llawn angenrheidiol fyddai'n eu galluogi i ddeall y gyfundrefn carchardai'n drylwyr. Gwnaiff hyn wahaniaeth i ansawdd y gwasanaethau bugeiliol sydd ar gael.

- 5.55 Dealltwriaeth y Comisiynydd yw nad oes gwasanaeth caplan Cymraeg ar gael mewn dim un carchar. Nododd HMPPS fod caplan dyneiddiol a allai siarad Cymraeg yn CEM Berwyn yn flaenorol, a bod gwasanaethau'n cael eu rhedeg yn ddwyieithog yn CEM Berwyn ar y Sul.

Profiadau positif

- 5.56 Adroddodd un o'r cyfweleion yn CEM Berwyn fod gwasanaethau Cymraeg yn well yno o'u cymharu â'r carchardai eraill roedd wedi bod ynddynt. Esboniodd fod hynny oherwydd bod staff y gampfa, y coleg a'r gwasanaeth iechyd yn siarad Cymraeg. Ychwanegodd fod aelod o staff ar lefel uchel (Pennaeth Lleihau Aildroseddu) yn siarad Cymraeg a'i fod yn teimlo'n gyfforddus yn siarad Cymraeg â hi, gan roi hyder cyffredinol iddo ynghylch agwedd y carchar at y Gymraeg.
- 5.57 Adroddodd cyfwelai arall fod 6 neu 7 o staff yng Nghaerdydd yn siarad Cymraeg a'i bod hi wedi bod yn braf gallu siarad Cymraeg â nhw.

Gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau allanol

Mae'r dystiolaeth a dderbyniodd y Comisiynydd gan sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal o fewn carchardai yng Nghymru a Lloegr yn awgrymu bod rhai prosesau mewn lle i ystyried anghenion iaith defnyddwyr, ond ni dderbyniwyd llawer o wybodaeth ynghylch gweithrediad gwasanaethau Cymraeg o ddydd i ddydd.

Argymhelliad 8

Dylai HMPPS adolygu ei drefniadau ar gyfer sicrhau bod gwasanaethau a gynigir o fewn carchardai gan sefydliadau allanol yn cydnabod y ffaith fod gwasanaethau Cymraeg yn arwain at ganlyniadau gwell i siaradwyr Cymraeg.

Cyffredinol

- 5.58 Nododd swyddogion carchardai a HMPPS fod y sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal yn y carchardai'n gwneud hynny'n lled-annibynnol, mewn modd sydd hyd braich o weithrediad y carchar, a'u bod yn gweithredu'n unol â'r gofynion ar eu sefydliadau eu hunain. Nodwyd bod y pwysau sydd ar wasanaethau iechyd a gofal yn gyffredinol – o ran cwtdogi adnoddau ac anhawster recriwtio – yn effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir mewn carchardai hefyd.
- 5.59 Fodd bynnag, mae amodau'r grantiau a roddir gan y gwasanaeth carchardai ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn yn cynnwys cyfeiriadau at y Gymraeg fel rhan o ofynion cydraddoldeb, a chaiff hynny ei fonitro fel rhan o'r broses gyffredinol ar gyfer monitro'r berthynas â'r darparwr.
- 5.60 Mae'r dystiolaeth a dderbyniodd y Comisiynydd gan sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal o fewn carchardai yng Nghymru a Lloegr yn awgrymu bod rhai prosesau mewn lle i ystyried anghenion iaith defnyddwyr, ond ni dderbyniwyd llawer o wybodaeth ynghylch gweithrediad gwasanaethau Cymraeg o ddydd i ddydd.

Iechyd

- 5.61 Cysylltodd y Comisiynydd â'r 4 awdurdod iechyd yng Nghymru sydd â charchardai o fewn eu ffiniau, i ofyn sut maen nhw'n asesu anghenion ieithyddol carcharorion. Cadarnhaodd 2 o'r byrddau iechyd fod dewis iaith y carcharorion yn cael ei ddarparu gan y carchardai, tra'r oedd un bwrdd iechyd yn cymryd cyfrifoldeb dros gofnodi'r dewis ar y pwynt cyswllt cyntaf gyda'r carcharorion.
- 5.62 Adroddodd y 3 bwrdd iechyd eu bod yn ymrwmo i ddarparu gwasanaethau Cymraeg i garcharorion sy'n dewis hynny.
- 5.63 Nododd 2 o'r byrddau iechyd fod diffygion wrth recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg yn rhwystr i ddarparu gwasanaethau Cymraeg yn uniongyrchol bob tro. Adroddodd y ddau fwrdd iechyd fod trefniadau yn eu lle i ddyrannu aelodau staff at gleifion sy'n dewis siarad Cymraeg, ond pan nad yw hynny'n bosib eu bod yn defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd Language Line.
- 5.64 Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ei fod yn rhan o'r tîm prosiect i arwain datblygiad CEM Berwyn, a bod darpariaeth Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth o'r cychwyn. Esboniwyd bod holl swyddi'r bwrdd iechyd yn y carchar wedi eu hysbysebu gyda'r gallu i siarad Cymraeg yn un o'r meini prawf dymunol, a bod holl staff gofal iechyd y carchar wedi bod i sesiynau am bwysigrwydd darparu gwasanaethau Cymraeg. Esboniwyd ymhellach y datblygwyd rhaglen hyfforddi'r Gymraeg i gefnogi anghenion y gweithlu, yn dilyn asesiad o'u sgiliau ieithyddol.

Gofal

- 5.65 Cysylltodd y Comisiynydd â 2 awdurdod lleol yn Lloegr, sydd â charchardai o fewn eu ffiniau sy'n hanesyddol yn derbyn nifer uchel o garcharorion o Gymru, i ofyn sut maen nhw'n asesu anghenion ieithyddol carcharorion. Ymatebodd un o'r awdurdodau lleol gan gadarnhau bod eu ffurflen asesu nhw ar gyfer y carchar yn cynnwys iaith gyntaf ddewisol ac y byddent yn defnyddio cyfieithydd ar gyfer unrhyw asesiadau petai carcharor yn dewis Cymraeg. Nid oes sicrwydd fodd bynnag mai dyma sy'n digwydd ar draws yr ystod eang o awdurdodau lleol sy'n cynnig gwasanaethau gofal i garcharorion o Gymru ar draws Lloegr gan nad yw'n ofyniad statudol.
- 5.66 Cysylltodd y Comisiynydd â'r awdurdodau lleol yng Nghymru sydd â charchar o fewn eu ffiniau i ofyn sut mae nhw'n asesu anghenion ieithyddol carcharorion. O'r 2 awdurdod lleol a ymatebodd i'r cais, roedd un yn cymryd cyfrifoldeb dros roi'r cynnig rhagweithiol i garcharorion ar y cyswllt cyntaf a chofnodi'r wybodaeth ar ei system, a'r awdurdod arall yn dweud ei fod yn dibynnu ar HMPPS i ddarparu data iddo am ddewis iaith y carcharorion.
- 5.67 Gofynnodd y Comisiynydd i'r awdurdodau lleol a oeddent wedi cynllunio eu gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion ieithyddol y carcharorion maent yn gofalu am danynt. Cadarnhaodd un awdurdod lleol ei bod wedi ymrwymo i ddilyn fframwaith 'Mwy Na Geiriau' Llywodraeth Cymru a safonau'r Gymraeg. Er mwyn gweithredu hynny mae ganddo gynllun sy'n anelu i brif ffrydio'r cynnig gweithredol a darpariaeth Gymraeg i ddefnyddwyr eu gwasanaethau. Cadarnhaodd yr ail gyngor fod y llyfryn gwybodaeth am ofal cymdeithasol i oedolion ar gael yn ddwyieithog i garcharorion ac y gallai gweithiwr cymdeithasol fod ar gael i garcharor sy'n dewis cael ei asesiad yn Gymraeg.

6. Cynllunio'r gweithlu

Pwysigrwydd cynllunio'r gweithlu

Mae profiadau carcharorion yn ddibynnol iawn ar sicrhau cyflenwad digonol o staff sy'n siarad Cymraeg, sicrhau bod yr holl staff yn parchu pwysigrwydd gallu ddefnyddio'r Gymraeg, a sicrhau bod carcharorion yn gwybod am gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

- 6.1 Gall cynllunio'r gweithlu gynnwys:
 - casglu data ynghylch sgiliau Cymraeg staff;
 - penderfynu sut i ddosbarthu staff;
 - recriwtio staff newydd;
 - hyfforddi staff;
 - hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gyda staff.
- 6.2 Mae profiadau carcharorion yn ddibynnol iawn ar gyswllt wyneb yn wyneb. Mae perthnasoedd â staff carchardai'n rhan allweddol o hyn.
- 6.3 Er bod angen amlwg i brosesau a deunyddiau fod ar gael yn Gymraeg, gellir dadlau bod ymwneud dydd-i-ddydd â staff carchardai (yn ogystal â chyd-garcharorion) yn cael llawer mwy o ddylanwad ar allu carcharorion i siarad Cymraeg.
- 6.4 Heb gyflenwad digonol o staff sy'n siarad Cymraeg, a thargedu gwaith y staff hynny'n ofalus, mae'n amhosib darparu gwasanaethau Cymraeg ystyrlon mewn carchardai.

- 6.5 Hyd yn oed pan na fo swyddogion yn siarad Cymraeg, mae'n bwysig fod ganddynt ymwybyddiaeth o, a pharch at, bwysigrwydd gallu carcharorion i siarad Cymraeg â'i gilydd ac wrth gyrchu gwasanaethau. Mae hyfforddiant yn bwysig yn hyn o beth.

Casglu a defnyddio data ynghylch sgiliau staff

Nid oes data cyflawn na chyfredol ar gael ynghylch sgiliau Cymraeg staff carchardai, ond mae HMPPS yn gweithio i fynd i'r afael â hyn. Mae HMPPS wedi gwneud peth gwaith i godi ymwybyddiaeth carcharorion o ba swyddogion sy'n siarad Cymraeg.

Argymhelliad 9

Dylai HMPPS weithredu proses barhaus i gasglu data cyfredol ynghylch sgiliau iaith staff carchardai, a dylai ddefnyddio'r data hwnnw i gynllunio gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth carcharorion ynghylch y cyfleoedd iddynt ddefnyddio'r Gymraeg gyda staff.

- 6.6 Cynhaliwyd ymarferiad casglu data unwaith-yn-unig ar gyfer sgiliau iaith staff carchardai yn ystod 2017. Nid yw'r data'n gyflawn nac yn gyfredol bellach.
- 6.7 Cadarnhaodd swyddogion y carchardai yr ymwelwyd â hwy yng Nghymru fod gwybodaeth am sgiliau Cymraeg swyddogion yn cael ei gasglu yn ad hoc ac nad oes cofnod canolog ohono.
- 6.8 Nododd swyddogion HMPPS Cymru eu bod yn gweithio ar ddatblygu'r data sydd ar gael am sgiliau Cymraeg staff carchardai, gan ddilyn system sydd gan y gwasanaeth prawf. Cadarnhawyd nad yw'r data yn gyflawn ar hyn o bryd a bod y data'n cael ei gasglu ar daenlenni yn lleol ar lefel carchardai.
- 6.9 Cadarnhaodd swyddogion yn y carchar yr ymwelwyd ag ef yn Lloegr nad oedd data yn cael ei gasglu am sgiliau iaith swyddogion.

- 6.10 Noda cynllun iaith Gymraeg HMPPS y bydd yn cynhyrchu “taflen Ymwybyddiaeth o’r iaith Gymraeg ar gyfer Carcharorion (ar gael yn Gymraeg ar-lein), yn cynnwys manylion am yr holl wybodaeth sydd ar gael yn y Gymraeg, gan gynnwys gweithdrefnau ar gyfer galwadau ffôn, llythyrau, ymweliadau, dysgu a sgiliau a gweithgareddau”.
- 6.11 Mae HMPPS wedi gweithio ar gyfathrebu â charcharorion ynghylch pa rai o staff carchardai sy’n siarad Cymraeg, drwy gael lluniau o’r swyddogion perthnasol ar bosteri. Adroddwyd bod angen gwaith cyson er mwyn cadw ymgyrch o’r fath yn effeithiol a chyfredol.
- 6.12 Adroddodd cyfweleion o CEM Abertawe a CEM Parc fod posterï yn dangos pa aelodau o’r staff sy’n siarad Cymraeg ym mhob adain. Nododd y cyfweleion o CEM Parc fod y posterï angen eu diweddarau.

Recriwtio

Yn sgil ymchwiliad diweddar gan y Comisiynydd i recriwtio staff ar gyfer CEM Berwyn, mae HMPPS wedi rhoi camau ar waith i asesu'r angen am sgiliau Cymraeg wrth recriwtio staff. Fodd bynnag, heb ddata ynghylch nifer y staff sy'n siarad Cymraeg mae'n anodd dod i gasgliad ynghylch effeithiolrwydd y camau.

Argymhelliad 10

Dylai HMPPS gymryd camau, yn enwedig wrth recriwtio staff newydd, er mwyn sicrhau bod ganddo nifer digonol o staff er mwyn cynnig gwasanaethau i garcharorion sy'n siarad Cymraeg mewn modd cyson a dibynadwy.

Argymhelliad 11

Dylai HMPPS ystyried y ddarpariaeth Gymraeg o ddechrau'r broses wrth gynllunio i agor unrhyw garchardai newydd yng Nghymru, gan gynnwys cynllunio i recriwtio staff â sgiliau Cymraeg.

6.13 Mae cynllun iaith Gymraeg HMPPS yn nodi, mewn perthynas â recriwtio, y bydd yn anelu i sicrhau bod cyfran y staff sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru yn gymesur â nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gymuned y maent yn darparu gwasanaethau iddi. Yn benodol, mae HMPPS wedi ymrwymo i:

- hysbysebu swyddi gwag yn ddwyieithog;
- asesu'r angen i ddynodi'r Gymraeg yn sgil hanfodol neu ddymunol ar gyfer pob swydd, gan ystyried meini prawf penodol wrth wneud hynny;
- rhagfynegi proffil ieithyddol y defnyddwyr gwasanaeth;
- dilyn canllawiau recriwtio'r Comisiynydd;
- sicrhau bod swyddogion HMPPS yng Nghymru yn rhoi cyfarwyddyd ar sut i ystyried y Gymraeg;
- cynnwys sgiliau Cymraeg o fewn canllawiau recriwtio HMPPS;
- cyflogi digon o staff dwyieithog i sicrhau bod modd cyflawni gwaith yn effeithiol.

- 6.14 Yn dilyn cais gan HMPPS, rhoddodd y Comisiynydd gyngor iddo ynglŷn â darparu gwasanaethau Cymraeg yng ngharchar EM Berwyn yn 2015, fel rhan o'r broses o gynllunio i sefydlu'r carchar.
- 6.15 Yn 2016, yn dilyn gohebu a chyfarfodydd rhwng swyddogion y Comisiynydd a HMPPS, cododd amheuaeth nad oedd yn cydymffurfio â gofynion y cynllun iaith Gymraeg wrth recriwtio ar gyfer swyddi yn CEM Berwyn.
- 6.16 Yn ogystal, derbyniodd y Comisiynydd ohebiaeth a datganiadau o bryder gan unigolion, gan gynnwys aelodau etholedig, ynglŷn â'r diffyg dynodiad 'Cymraeg yn hanfodol' ar swyddi yn CEM Berwyn. Roedd y broses recriwtio hefyd wedi derbyn sylw yn y wasg.
- 6.17 Yn dilyn cynnal cyfarfodydd â swyddogion HMPPS, roedd amheuaeth ynglŷn â'r broses recriwtio yn parhau. O ganlyniad penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad statudol i'r broses recriwtio ar gyfer Carchar EM Berwyn, dan adran 17 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.
- 6.18 Daeth yr [ymchwiliad](#) i'r casgliad nad oedd HMPPS yn cydymffurfio â gofynion ei gynllun iaith Gymraeg o ran recriwtio a chynllunio ar gyfer Carchar EM Berwyn.
- 6.19 Argymhellwyd y canlynol yn sgil yr ymchwiliad:
1. Dylid diwygio'r canllawiau recriwtio er mwyn sicrhau bod cymal 5.1 o'r cynllun iaith yn cael ei weithredu'n llawn.
 2. Dylai'r gwasanaeth asesu anghenion ieithyddol pob swydd wag a hysbysebu'r swyddi gyda'r dynodiad ieithyddol priodol.
 3. Pan fo'r gwasanaeth yn gosod gwasanaethau carchar ar gytundeb dylid mabwysiadu trefn sy'n sicrhau eu bod yn ystyried yr angen i osod amodau ynglŷn ag asesu anghenion ieithyddol swyddi yn y cytundeb.

4. Dylai cytundebau â sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau o fewn carchardai fanylu'n llawn ar y gwasanaethau Cymraeg sy'n ddisgwyliedig gan ddarparwyr.

- 6.20 Derbyniodd HMPPS ganfyddiadau'r ymchwiliad a chytuno i weithredu'r argymhellion. Mae HMPPS wedi bod yn diweddarau'r Comisiynydd ynghylch gweithrediad yr argymhellion.
- 6.21 Mae'r camau a gymerwyd yn cynnwys sefydlu gweithgor sydd wedi darparu canllawiau i swyddogion a rheolwyr adnoddau dynol er mwyn sicrhau eu bod yn defnyddio systemau a phrosesau sy'n bodoli'n barod er mwyn cydymffurfio â chymal 5.1 o gynllun iaith HMPPS wrth recriwtio. Bydd y gweithgor hefyd yn trio gwella dealltwriaeth o system technoleg gwybodaeth HMPPS wrth recriwtio, a deall sut mae gwneud gwell defnydd ohoni wrth weithredu'r cynllun iaith.
- 6.22 Cadarnhawyd hefyd fod trefniadau yn eu lle ar gyfer sicrhau bod yr angen i ddarparu gwasanaethau Cymraeg yn cael ei ystyried fel rhan o broses tendro contractau, partneriaethau a grantiau, a bod trefniadau yn eu lle i fonitro unrhyw ofyniad i ddarparu gwasanaethau Cymraeg fel rhan o gcontractau, partneriaethau a grantiau.
- 6.23 Nododd swyddogion HMPPS eu bod wedi nodi sgiliau Cymraeg fel gofyniad 'dymunol' ar gyfer swyddi yn y rowndiau diweddaraf o recriwtio ar gyfer swyddi mewn carchardai yng Nghymru, ond nid yw'n glir pa ddull asesu a ddefnyddiwyd i gyrraedd y dynodiad hwnnw. Rhedwyd yr ymgyrch recriwtio'n ddwyieithog drwy "ficrowefan Gymraeg benodol i Berwyn", a datganodd 9% o'r 396 ymgeisydd eu bod yn siaradwyr Cymraeg. Nododd y swyddogion hefyd eu bod wedi cydweithio â'r tîm recriwtio mewnol er mwyn sicrhau bod y broses cyfweld ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys defnyddio actorion dwyieithog ar gyfer tasgau chwarae rôl.

- 6.24 Heb ddata ynghylch nifer y staff sy'n siarad Cymraeg mae'n anodd dod i gasgliad ynghylch effeithiolrwydd y camau a gymerwyd o ran cynyddu capasiti.

Hyfforddiant

Mae ymwybyddiaeth o'r cynllun iaith Gymraeg yn rhan o hyfforddiant cynefino staff carchardai, ond mae rhai o ganfyddiadau'r arolwg hwn (ynghylch casglu data ac ymyrryd â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg) yn awgrymu nad yw'r hyfforddiant mor effeithiol ag y dylai fod. Mae staff yn cael gwersi Cymraeg sylfaenol ond nid yw'n ymddangos fod ymdrechion sylweddol i ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu.

Argymhelliad 12

Dylai HMPPS adolygu'r hyfforddiant y mae'n ei gynnig i staff carchardai er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion a amlygir yn yr adroddiad hwn, yn benodol o ran cofnodi data ynghylch siaradwyr Cymraeg ac ymyrryd â'r rhyddid i siarad Cymraeg, ac archwilio'r posibilrwydd o gynyddu ei gapasiti drwy ddatblygu sgiliau iaith ei staff presennol.

- 6.25 Mae cynllun iaith HMPPS yn nodi y bydd y broses cynefino ar gyfer staff yn cynnwys hyfforddiant ynghylch ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'r "angen i gael mynediad at wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg", ac y byddant yn derbyn gwybodaeth am ofynion y cynllun iaith Gymraeg. Roedd bwriad i gyhoeddi cyfarwyddyd gweithredol a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol gweithredu nifer o agweddau ar y cynllun iaith, ac yn darparu arweiniad.
- 6.26 Mae modiwl ynghylch cydraddoldeb a'r Gymraeg yn rhan o hyfforddiant sylfaenol pob swyddog carchar sy'n cael ei recriwtio, ac mae'r modiwl yn cynnwys gwybodaeth am y cynllun iaith Gymraeg a phwysigrwydd y diwylliant Cymraeg.
- 6.27 Ni chyhoeddwyd y cyfarwyddyd yn unol â'r ymrwymiad, ac mae HMPPS yn mynd drwy broses o resymoli cyfarwyddiadau ar hyn o bryd, gan leihau eu nifer fel rhan o bolisi i rymuso Llywodraethwyr.

- 6.28 Esboniodd HMPPS wrth y Comisiynydd ei fod, fel rhan o brosiect dadreoleiddio, yn adolygu'r holl gyfarwyddydau carchar sy'n bodoli ar hyn o bryd. Lle mae gofynion yn parhau'n angenrheidiol, bydd Fframweithiau Polisi'n cymryd lle cyfarwyddydau.
- 6.29 Bydd y Cyfarwyddyd Cydraddoldeb cyfredol (32/2011) yn cael ei adolygu. Mae HMPPS yn rhagweld y bydd hyn yn rhoi cyfle iddo wreiddio egwyddorion ei gynllun iaith Gymraeg newydd, er enghraifft drwy gryfhau casglu data a gweithredu trefniadau monitro cadarn.
- 6.30 Penderfynwyd bod y cynllun iaith Gymraeg yn ddigonol ar ei ben ei hun, ac na fydd Fframwaith Polisi penodol yn ei atgyfnerthu neu'n cymryd ei le.
- 6.31 Mae nifer o'r diffygion a amlygir yn yr adroddiad hwn yn ganlyniad gweithredu anghywir gan swyddogion yn hytrach na methiannau cyffredinol, er enghraifft peidio â chofnodi dewis iaith carcharorion, neu ymyrryd â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg, er bod gwneud hynny'n mynd yn groes i'r polisi cyffredinol.
- 6.32 Amlyga hyn bwysigrwydd hyfforddiant er mwyn gwneud yr holl swyddogion yn ymwybodol o'r Gymraeg a'u galluogi i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael eu trin yn gywir.
- 6.33 Awgrymodd swyddogion mewn carchardai fod agweddau ac ymwybyddiaeth staff carchardai sydd wedi eu recriwtio'n ddiweddar yn well na staff mwy profiadol, gan amlygu efallai fod camau i godi ymwybyddiaeth staff newydd o'r gofynion yn dwyn ffrwyth.
- 6.34 Ym mis Ionawr 2018 nododd adroddiad monitro blynyddol HMPPS ar weithrediad ei gynllun iaith fod staff newydd yng Nghymru'n cael gwybodaeth ar y cynllun iaith Gymraeg fel rhan o'u hyfforddiant anwytho.

- 6.35 Er enghraifft, mae Rheolwr Cydraddoldeb Cymru wedi darparu cyrsiau cynefino cynhwysfawr yn bersonol i bob aelod newydd o staff o bob graddfa yn CEM Berwyn, ac mae ar hyn o bryd yn darparu cyrsiau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel rhan o Hyfforddiant Lefel Mynediad i Swyddog Carchar (POELT), a ddarperir mewn canolfannau hyfforddi yn CEM Caerdydd a CEM Berwyn.
- 6.36 Mewn gohebiaeth, nododd HMPPS, "the presentation includes a brief history of the Welsh language to provide a local context on its history and cultural importance, followed by an explanation around the Welsh Language requirements and demonstrates our commitment to accommodating the needs of Welsh speakers. Once we have a refreshed HMPPS Scheme, we will enhance the material to ensure that it remains current and that new recruits are clear about how it applies to them, both in terms of services to prisoners and as Welsh speaking staff."
- 6.37 Yn ogystal â hyn, dosberthir cardiau cyfarch dwyieithog i bob aelod o staff i'w cynorthwyo i gyfarch rhywun yn ddwyieithog.

7. Gwrando ar lais carcharorion

Y gallu i gwyno am faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg

Mynegodd carcharorion beth drwgdybiaeth o brosesau cwyno mewnol. Anelir i ddelio'n anffurfiol â chwynion yn y lle cyntaf, ac mae manteision i hynny o ran datrys problemau'n gyflym a hwyluso perthnasoedd o fewn y carchar. Ar y llaw arall, efallai ei fod yn arwain at ddiffyg cofnodi, gan olygu nad yw gwersi'n cael eu dysgu, ac mewn rhai achosion fod swyddogion yn ceisio atal cwynion. Nid yw'n ymddangos fod ymwybyddiaeth o'r gallu i gwyno wrth y Comisiynydd, a bydd anawsterau ymarferol i garcharorion wneud cwyn wrth sefydliad allanol.

Argymhelliad 13

Dylai HMPPS sicrhau bod prosesau ar gyfer delio â chwynion mewnol yn rhoi hyder i garcharorion fod materion yn cael eu datrys yn briodol, ac yn galluogi carchardai i wella'u gwasanaethau.

Argymhelliad 14

Dylai HMPPS sicrhau bod carcharorion yn ymwybodol fod ganddynt hawl i gwyno wrth y Comisiynydd am faterion yn ymwneud â'r Gymraeg, a dylai hwyluso unrhyw gŵyn y dymuna carcharor ei gwneud.

Cwynion mewnol

- 7.1 Roedd dealltwriaeth ymysg carcharorion o brosesau cwyno mewnol. Adroddodd 14 o'r cyfweleion eu bod yn deall sut mae cwyno am wasanaethau'r carchar (78%), ac un cyfwelai yn unig a nododd nad oedd yn gwybod sut oedd cwyno, gan nad oedd unrhyw un wedi esbonio'r broses.
- 7.2 Nid oedd y rhan fwyaf o'r cyfweleion wedi cyflwyno cwyn fewnol – 3 ohonynt oedd wedi gwneud hynny (17%), ac un o'r rheiny wedi cwyno am safon gwasanaethau Cymraeg.
- 7.3 Roedd gan 11 o'r cyfweleion deimladau negyddol am brosesau cwyno carchardai (61%). Adroddodd 5 o'r cyfweleion eu bod yn gweld y broses gwyno'n ddibwrpas a'u bod o'r farn nad oes newid yn dilyn cwyno (28%). Esboniodd 4 o'r cyfweleion na fyddent y cwyno gan eu bod yn meddwl y byddai hynny'n arwain at ganlyniadau negyddol iddynt oddi wrth staff y carchar (22%). Roedd 3 o'r cyfweleion yn gweld y broses gwyno'n rhy gymhleth a hir (17%).
- 7.4 Roedd un cyfwelai'n meddwl bod angen mynd y tu hwnt i awdurdod y carchar i gwyno, ac roedd hi wedi mynd at ei AS. Dywedodd: "Dwi ddim yn teimlo y gallaf ddelio gyda'r awdurdodau yn y Gymraeg achos dydyn nhw ddim yn gwrando i gwynion Saesneg, felly does dim siawns yn y Gymraeg."
- 7.5 Ymddengys mai un maen tramgwydd yw'r drefn anffurfiol ar gyfer cwynion cychwynnol. Esboniodd un cyfwelai: "Dwi'n gwybod sut i wneud cwyn ond y broses yw bod rhaid gofyn am ffurflen cwyn oddi wrth swyddogion ar yr adain – bydden nhw'n trio rhoi chi off. Mae meddylfryd eich bod yn trio creu trafferth wrth gwyno ac mae yna hefyd *consequences* o wneud cwyn."

- 7.6 Cadarnhaodd swyddogion y carchardai yr ymwelwyd â hwy mai ceisio delio â chwynion yn anffurfiol yw'r nod, cyn iddyn nhw fynd yn rhai ffurfiol sy'n cael eu cofnodi. Mae manteision i hynny o ran datrys problemau'n gyflym a hwyluso perthnasodd o fewn y carchar.
- 7.7 Ar y llaw arall, mae'n golygu hefyd nad yw llawer o gwynion (gan gynnwys rhai am ddiffyg gwasanaethau Cymraeg o bosib) yn cael eu cofnodi, ac mewn rhai achosion fod swyddogion yn ceisio atal cwynion (neu ganfyddiad fod hynny'n digwydd). Golyga hyn nad ydynt yn rhan o'r data sydd ar gael i HMPPS ei ddadansoddi, a bod risg o golli cyfleoedd i ddysgu gwersi ehangach.
- 7.8 Darparodd HMPPS wybodaeth ynghylch ei broses cwynion carchardai. Does dim dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer cwynion, ond mae cyfarwyddyd carchar yn gosod terfynau amser penodol ar gyfer 3 cham y broses.

Cwynion i'r Comisiynydd

- 7.9 Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn rhoi hawl i bobl gwyno wrth y Comisiynydd os ydynt yn credu nad yw sefydliad yn cydymffurfio â'i gynllun iaith Gymraeg. Bydd y Comisiynydd wedyn yn ceisio datrys y mater ac, os oes angen, yn cynnal ymchwiliad. Mae hawl hefyd i gwyno ynghylch methiant i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg yn unol â darpariaethau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- 7.10 Mae'r hawliau hyn yn berthnasol i garcharorion hefyd. Ond golyga materion ymarferol – mynediad cyfyngedig at ffôn, y we, e-bost ac ati – fod angen i'r carchar gymryd camau pendant er mwyn hwyluso defnyddio'r hawl honno.
- 7.11 Mae'n bosib hefyd fod angen codi ymwybyddiaeth carcharorion ynghylch yr hawl proses sydd ganddynt, a phwysleisio na fydd cwyno wrth sefydliad allanol fel y Comisiynydd yn arwain at unrhyw driniaeth lai ffafriol.
- 7.12 Ni soniodd dim un o'r cyfweleion am yr opsiwn o gwyno wrth y Comisiynydd os oeddent yn anfodlon â'r gwasanaeth Cymraeg yn y carchar.
- 7.13 Ers ei sefydlu yn 2012, mae'r Comisiynydd wedi derbyn nifer o gwynion ynghylch gweithrediad cynllun iaith Gymraeg HMPPS. Mae'r cwynion hyn wedi ymwneud â sefyll arholiadau yn Gymraeg, cofnodi dewis iaith, mynediad at S4C, argaeledd ffurflenni, a siarad Cymraeg ar y ffôn â'u teulu.
- 7.14 Yn gyffredinol, nid yw'r cwynion hyn yn tueddu i ddod oddi wrth y carcharorion eu hunain. Yn hytrach, mae'r carcharorion neu eu teuluoedd yn tueddu i gysylltu ag aelodau etholedig, sydd wedyn yn cyfeirio'r mater at y Comisiynydd.

Datblygiadau perthnasol

7.15 Un o ganfyddiadau [adolygiad](#) David Lammy AS o'r driniaeth a gaiff unigolion Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y system cyfiawnder troseddol oedd bod diffygion o ran delio â chwynion ynghylch camwahaniaethu. Adroddodd swyddogion HMPPS mai argymhellion adroddiad Lammy yw un o'r prif yrwyr ar gyfer eu gwaith ar hyn o bryd, a bod nifer o argymhellion Lammy'n rhai a fydd yn llesol i siaradwyr Cymraeg yn ogystal ag unigolion BAME. Er enghraifft, mae adroddiad Lammy'n argymhell diwygio'r drefn ar gyfer ymwneud â chwynion, gan fabwysiadu dull 'datrys problemau' a chynyddu tryloywder. Nododd swyddogion HMPPS mai eu nod yw datblygu system gwyno sy'n dryloyw, yn datrys problemau'n gyflym, yn caniatáu dilyn proses ddyladwy, ac sy'n sicrhau bod problemau'n dod i'r amlwg.

7.16 Ategwyd canfyddiadau Lammy ynghylch cwynion am gamwahaniaethu gan [fwletin](#) gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiant (Ionawr 2018), a nododd:

The solutions are straightforward: prisons need to allocate sufficient resources to the investigation of complaints about discrimination; and they need to ensure that the staff responsible for investigating these complaints (whether dedicated Equalities Officers or managers generally) are properly trained, that allegations of discrimination are addressed directly and not ignored or glossed over, and that equalities data is routinely collected.

7.17 Mewn gohebiaeth at y Comisiynydd, adroddodd y Prison Reform Trust fod defnyddwyr eu llinell cyngor a gwybodaeth yn aml yn disgrifio diffyg ymddiriedaeth gyda gweithdrefnau cwyno mewnol carchardai. Esboniwyd mai'r prif resymau am hyn yw ffurflenni yn mynd ar goll, oedi hir cyn ymateb, a safon yr ymatebion.

- 7.18 Cyhoeddodd y Prison Reform Trust [adroddiad](#) am sut yr ymdrinnir â chwynion am gamwahaniaethu (Ebrill 2017), gan adrodd:

Investigations should make greater use of problem-solving, mediation, and outside expertise to address the problems that gave rise to the complaints. [...] It also recommends the introduction of a discrimination toolkit for prisons, better access to the complaints system for people with learning disabilities, an end to the use of defensive complaints, better training for staff and more rigorous oversight of the complaints process by governors and senior managers.

- 7.19 Yn ei [adroddiad blynyddol](#) ar gyfer 2017-18, adroddodd yr Ombwdsmon Carchardai a Phofiant:

We received 5% more complaints in 2016-17 than in the previous year and 9% more eligible complaints. As in previous years, the majority of complaints were from adult male prisoners. They continued to cover a huge variety of subjects, ranging from relatively minor matters to serious allegations of misbehaviour by staff.

We upheld 38% of the complaints we investigated. This is a surprisingly high percentage considering all complaints have been through two internal stages before they reach us.

This year in particular, the pressures prisons are under have been reflected in an increasing failure by some prisons to get the basics right. For example, we have seen more cases where staff failed to record what they had done and why. [...]

We have also experienced more difficulty obtaining the information that is needed to investigate a complaint. It has become much more common for us to have to chase repeatedly for information and in some cases prisons have failed to respond at all.

7.20 Mewn gohebiaeth ddilynol at y Comisiynydd, nododd HMPPS:

HMPPS are currently reviewing the process of general complaints in response to Lammy, with a particular focus on improving the process for complaints of a discriminatory nature. Welsh language has been given consideration from the outset: we are working with staff and prisoners in Wales to ensure it meets Welsh language need, both in terms of accessibility in Welsh and complaints of discrimination in relation to Welsh language.

7.21 Mae'n gadarnhaol fod modd delio â materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg fel rhan o ddiwygiadau eraill y mae HMPPS yn eu gwneud.

Ymgysylltu â charcharorion

Mae HMPPS wedi cynnal grwpiau ffocws er mwyn casglu barn carcharorion ynghylch eu profiadau ac ymgynghori ar faterion fel diwygio'r cynllun iaith Gymraeg. Mae hyn yn ddatblygiad cadarnhaol y dylid ei ymestyn.

Argymhelliad 15

Dylai HMPPS barhau â'i ymdrechion i ymgysylltu â charcharorion er mwyn dysgu am eu profiadau ac ymgynghori ynghylch datblygiadau.

- 7.22 Wrth adrodd ar weithrediad y cynllun iaith Gymraeg yn 2016-17, nododd HMPPS eu bod wedi cynnal dau grŵp ffocws er mwyn cael adborth carcharorion am wasanaethau Cymraeg – un yn CEM Berwyn a'r llall yn CEM / Sefydliad Troseddwy'r Ifanc Parc. Nodwyd:

Yn y ddau leoliad, roedd y cyfranogwyr yn angerddol am eu treftadaeth Gymreig; nid yn unig am allu cael mynediad at wasanaethau yn Gymraeg. Defnyddiwyd cymdeithasau Cymraeg er mwyn i ddynion sy'n gallu siarad Cymraeg gael amser i gymdeithasu a sgwrsio yn Gymraeg.

Mae'r adborth a gafwyd gan droseddwy'r yn awgrymu fod hyrwyddo a gweithredu'r Cynllun yn lleol wedi arwain at arferion lleol da ond nid yw'n gyson ar draws sefydliadau. Nid oedd wyth o'r 18 carchar ar draws Cymru a Lloegr gyda siaradwyr Cymraeg wedi hyrwyddo'r gallu i siarad Cymraeg. Roedd teimlad o ddicter, yn enwedig o ran prosesau syml h.y. ffurflenni cwyno ddim ar gael yn Gymraeg.

Mae ymdrechion i gynnal cyrsiau Cymraeg yn amrywio ar draws yr ystâd a gwelwyd y byddai'r rhain o fudd. Roedd cael mynediad at iaith a diwylliant Cymraeg yn aml yn teimlo fel ôl-ystyriaeth, neu'n rhywbeth sy'n cael ei anghofio ymhlith blaenoriaethau eraill.

- 7.23 Mae hyn yn arfer cadarnhaol sydd â'r potensial o ddyfnhau llawer ar ddealltwriaeth HMPPS o brofiadau carcharorion.
- 7.24 Bwriada HMPPS barhau i gynnal grwpiau o'r fath, gan eu defnyddio er mwyn ymgynghori â charcharorion ynghylch cynnwys ei gynllun iaith Gymraeg diwygiedig.

Monitro ac atebolrwydd

Mae HMPPS yn adrodd yn flynyddol wrth y Comisiynydd ar weithrediad ei gynllun iaith, ac yn ymweld â charchardai er mwyn monitro gwasanaethau Cymraeg. Mae wrthi'n diwygio'i gynllun iaith Gymraeg.

Fel y sefydliad sy'n gyfrifol yn y pen draw am HMPPS, mae gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder rôl bwysig i'w chwarae wrth sicrhau bod y ddarpariaeth i siaradwyr Cymraeg yn ddigonol.

Argymhelliad 16

Dylai HMPPS ystyried canfyddiadau'r arolwg hwn wrth ddiwygio'i gynllun iaith Gymraeg, a sicrhau bod ganddo drefniadau atebolrwydd priodol ar gyfer monitro cynnydd wrth weithredu'r argymhellion.

Argymhelliad 17

Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sicrhau bod y cyfeiriad polisi, yr adnoddau a'r trefniadau atebolrwydd sydd ganddi mewn lle mewn perthynas â HMPPS yn golygu bod y ddarpariaeth Gymraeg i garcharorion yn ddigonol.

- 7.25 Mae HMPPS yn adrodd yn flynyddol wrth y Comisiynydd ynghylch gweithrediad ei gynllun iaith Gymraeg. Mae gan y Comisiynydd bŵer i ymchwilio i gwynion am weithrediad y cynllun.
- 7.26 Prif Weithredwr HMPPS sy'n gyfrifol yn y pen draw am weithrediad y cynllun, gyda phenaethiaid cydraddoldeb yn gyfrifol amdano o ddydd i ddydd. Ers i'r cynllun presennol gael ei gymeradwyo yn 2013 mae rôl cyfarwyddwr gweithredol ar gyfer HMPPS yng Nghymru wedi ei datblygu, ac mae HMPPS Cymru'n gyfrifol am fonitro gweithrediad y cynllun mewn carchardai yng Nghymru. Fel rhan o hyn, mae swyddogion HMPPS Cymru'n ymweld â charchardai ac yn cynnig cefnogaeth weithredol.
- 7.27 Mae HMPPS yn y broses o ddiwygio'i gynllun iaith Gymraeg ar hyn o bryd. Mae HMPPS yn awyddus i'w gynllun iaith diwygiedig ddarparu

gwell fframwaith ar gyfer monitro gwasanaethau Cymraeg mewn carchardai unigol, gyda dull o gasglu gwybodaeth sydd ddim yn ddibynnol ar y prosesau awdit arferol.

- 7.28 Mae trefn asesu effaith cydraddoldeb newydd HMPPS, sef Dadansoddiad Cydraddoldeb, yn ei gwneud yn ofynnol ystyried y Gymraeg yn ogystal â nodweddion gwarchodedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Nod Dadansoddiad Cydraddoldeb yw bod gweithgaredd llai biwrocraidd ond mwy pwrpasol a chynhwysfawr yn cymryd lle Asesiad Effaith Cydraddoldeb. Yn ôl HMPPS, mae cyflwyno Dadansoddiad Cydraddoldeb yn golygu “considerations of equality will be factored into the start of any policy, protocol, procedure or project and any aspect of service design, and will continue throughout”; drwy gynnwys y Gymraeg o'i fewn, mae HMPPS yn gobeithio y caiff y Gymraeg ei hystyried yn yr un modd.
- 7.29 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n gyfrifol am osod y cyfeiriad polisi a darparu adnoddau ar gyfer gwaith HMPPS. Gan fod HMPPS yn un o gyrff noddedig y Weinyddiaeth Gyfiawnder, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder sy'n atebol yn y pen draw am weithrediad y system carchardai. Yn sgil hyn, mae'n bwysig fod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn y carchar yn ddigonol.